

H431H179 WOED LH

Y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru:

Materion Rheoli ar gyfer y 1990au

Y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru: Materion Rheoli

Cynnwys

Crynodeb y Rheolwyr

1. CYFLWYNIAD

Cefndir

Diben

Ymagwedd

Astudiaeth Seisnig

Strwythur yr adroddiad

2. MATERION STRWYTHUROL

Cyflwyniad

Sail adrannol

- Hamdden ac Adloniant

- Uned drawsawdurdod

- Trefniant o hyd braich

Effaith y Ddeddf Diwygio Addysg

Cysylltiadau â gwasanaethau perthynol

Casgliadau

3. CYNLLUNIO STRATEGOL

Cyflwyniad

Problemau cynllunio ar y cyd

Cyfraniad pobl ifanc

Cyfraniad y cyflogwyr

Casgliad

4. DYRANNU A DIRPRWYO ADNODDAU

Cyflwyniad

Dyrannu adnoddau

- grantiau i grwpiau gwirfoddol
- AAL1 i ardaloedd neu gymdogaethau
- AAL1 i glybiau a phrojectau
- ariannu drwy gontract

Dirprwyo

- dirprwyo i'r gwasanaeth cyfan
- dirprwyo i ardaloedd
- dirprwyo ar lefel clybiau a phrojectau

Casgliadau

5. AROLYGU A GWERTHUSO

Cyflwyniad

Arferion heddiw

Arferion y dyfodol

Dangosyddion perfformiad

- dangosyddion mewnbwn
- dangosyddion proses
- dangosyddion allbwn
- dangosyddion defnydd

Casgliadau

Atodiadau

- A - aelodaeth y Pwyllgor Llywio a'r tîm astudio
- B - y cyrff yn cynnig sylwadau neu wybodaeth
- C - model posibl ar gyfer ariannu system osod i grwpiau
ieuenctid gan AAL1
- D - grantiau cynnal addysg a hyfforddiant a gweithwyr gwirfoddol

Crynodeb y Rheolwyr

1 Mae gennym hawl i ymfalchïo yng nghyfraniad y gwasanaeth ieuenctid at y ddarpariaeth addysgol yng Nghymru drwy gyfrwng gwaith y clybiau a'r projectau yn y sector gwirfoddol. Er hynny mae nifer o ddatblygiadau wedi peri trafodaeth ynglŷn â sut y gellid cyflawni gwasanaethau orau yn y dyfodol.

2 Comisiynwyd Cooper & Lybrand Deloitte gan y Swyddfa Gymreig i ystyried goblygiadau datblygiadau diweddar - ac yn enwedig y Ddeddf Diwygio Addysg - ar gyfer rheoli'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru yn y nawdegau. Fe roesom sylw arbennig i bedwar prif fater:

- Lleoliad strwythurol y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir o fewn yr awdurdodau addysg lleol (AALl);
- cynllunio strategol y gwasanaeth;
- dyrannu adnoddau a dirprwyo rheolaeth;
- arolygu, gwerthuso a sicrhau safon ansawdd.

3 Er mwyn cyflawni'r astudiaeth fe ymgwymerwyd â gwaith maes mewn tri AALl gwrthgyferbyniol - Clwyd, Gwynedd a De Morgannwg - a gwahoddwyd cyfraniadau oddi wrth yr AALl eraill yng Nghymru ac gwerthfawr hefyd gan Bwyllgor Llywio a alwyd ynghyd gan y Swyddfa Gymreig a chydag aelodaeth a dynnwyd oddi wrth y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol.

4 Ymgwymerwyd â'r astudiaeth yn syth ar ôl inni orffen astudiaeth debyg yn Lloegr. Lle'r oedd tebygrwydd rhwng y ddwy wlad (e.e. dulliau o arolygu a gwerthuso a'r defnydd a wneir o ddangosyddion perfformiad) fe ddetholwyd deunydd o'r astudiaeth yn Lloegr. Er hynny, mae hwn yn adroddiad ar wahân ac fe'i lluniwyd gyda chyd-destun ac anghenion Cymru yn cael y prif sylw.

Lleoliad Strwythurol

5 Mae'r holl AALl yng Nghymru ar hyn o bryd wedi lleoli eu gwasanaeth ieuenctid o fewn yr Adran Addysg (er nad felly y bu pethau bob amser). Fe ystyriwn ddewis o ddau leoliad posibl arall - o fewn adran Gwasanaethau Hamdden ac o fewn uned draws-awdurdodol - ond ein casgliad ni yw mai'r Adran Addysg yw'r lleoliad cywir.

6 Fe ystyriwn hefyd y posibilrwydd o gynnig y gwasanaeth drwy un neu ragor o gyrff ar hyn braich oddi wrth yr AALl ar sail contract. Fe fyddai'r adran Addysg yn gweithredu fel cleient ac yn penderfynu'r ddarpariaeth y byddai ei angen arni o ran cwricwlwm, cynnwys ac ansawdd a'r pris y byddai'n barod i'w dalu: byddai'r corff (neu'r gyrff) gwasanaeth ieuenctid yn gweithredu fel contractiwr i gyflawni'r gwasanaeth. Fe gasglwn y gallai fod manteision yn dod i'r AALl, i'r gwasanaeth ieuenctid ac i'r bobl ifanc o fynd â'r model cychwynnol hwn yn bellach er ein bod yn cydnabod y byddai angen llawer o waith paratoi ac ymgynghori i ddatblygu cynnig ymarferol.

7 Mae'r Ddeddf Diwygio Addysg yn peri i'r AALL ailasesu strwythur mewnol yr adrannau Addysg. Yng Nghymru, ychydig sydd wedi dechrau ailstrwythuro sylfaenol ond mae rhai wrthi'n cynllunio newidiadau. Fe ystyriwn ddau ddewis ar gyfer lleoli'r gwasanaeth ieuenctid o fewn adran Addysg sydd wedi'i hailstrwythuro - mewn adran "gwasanaethau sefydliadau" gydag ysgolion a cholegau, neu mewn adran "gwasanaethau cleientau" gyda gwasanaethau fel gyrfaeodd a dyfarniadau i fyfyrwyr. Ein casgliad ni yw y dylid grwpio'r gwasanaeth ieuenctid mewn adran gyda gwasanaethau sy'n gwyro tuag at yr unigolyn fel cleient yn hytrach na chydag ysgolion a cholegau unigol.

8 Ystyriwn y duedd yng Nghymru i waith ieuenctid gael ei gyflwyno o fewn fframwaith o addysg gymunedol integredig a chasgwn fod hwn yn dal i fod yn fodel priodol o fewn adran Addysg wedi'i hailstrwythuro a hynny am fod yr agweddau eraill ar addysg yn tueddu hefyd tuag at gleientau unigol yn hytrach na sefydliadau. Er hynny, credwn y gallai fod yn anodd fynd ar drywydd model arloesol ar ddarparu gwasanaethau drwy drefniadau hyd braich os na chaiff yr agweddau gwaith ieuenctid ar addysg gymunedol eu datod oddi wrth yr agweddau eraill, neu os na chymerir bod y drefn yn cynnwys y gwasanaeth addysg gymunedol gyfan.

Cynllunio strategol

9 Fe geir cefnogaeth eang ar gyfer y syniad y dylai cynllunio strategol y gwasanaeth ieuenctid gynnwys darpariaeth ar gyfer y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol ac y dylid ymgymryd ag ef mewn partneriaeth ar lefel sirol gan gynrychiolwyr y ddau sector. Gan hynny fe gynigiwn ni ddull o gynllunio ar y cyd sy'n annog y ddau sector i rannu perchnogaeth y cynllun, sy'n parchu ac yn hyrwyddo gwahanol werthoedd a thradoddiadau ac sy'n targedu adnoddau cyfyng i fodloni amcanion y cytunwyd arnynt.

10 Craidd ein dull o weithredu yw fforwm sirol gyda chynrychiolaeth gytbwys o'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol a llinell ymgynghorol glir i'r Pwyllgor Addysg. Ei brif gyfrifoldeb fyddai diffinio'r fframwaith ar gyfer darparu ar gyfer ieuenctid ym mhob sir, asesu anghenion y gwahanol grwpiau, a chynhyrchu cynllun strategol tymor canol gyda thargedau blynyddol. Ar ôl diffinio'r fframwaith sirol fe fyddai'r gwahanol grwpiau sy'n aelodau yn gallu cynllunio manylion eu rhaglen yn lleol heb angen rhagor o gyfarfodydd ar lefel sirol.

11 Hefyd fe ddylai'r fforwm roi cyngor i'r Pwyllgor Addysg ynglŷn â dyrannu adnoddau'r AALL rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, ac ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer dyrannu cynhaliaeth i'r sector gwirfoddol. Byddai hyn yn hybu aelodaeth weithgar, yn cysylltu dyrannu adnoddau i'r cynllun strategol y cytunwyd arno ac yn ysmud peth o'r dirgelwch sy'n amgylchynu dyraniadau ar hyn o bryd.

12 Dylai'r fforwm ddatblygu hyfforddi ar y cyd a strategaethau ar gyfer gweithredu ar y cyd ar draws y sectorau hefyd. Mae cyfyngiadau cyfredol y Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant ynglŷn â chynnal hyfforddi gwirfoddolwyr yn anghysondeb sy'n achosi ymraniadau yn hyn o beth ac fe awgrymwn ni y dylai'r Swyddfa Gymreig a'r AALL ystyried atebion llawn dychymyg i ddatrys y broblem (fe gynigiwn ateb posibl mewn atodiad) neu lenwi'r bwloch ariannu o ffynonellau eraill.

13 Peth i'w ddymuno yw cael pobl ifainc i gyfrannu at gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer ieuenctid. Nid oes un model unigol ar gyfer hyn - er ein bod â chydymdeimlad a'r syniadau a gynigiwyd gan Fforwm Ieuenctid Cymru a all fod yn briodol ar gyfer rhai AALl. Ein barn ni yw bod angen ychwanegu at y dylliau ffurfiol o weithredu ar sail cynrychiolwyr pobl ifanc sy'n cyfrannu at lefel clwb, ardal neu sir gyda dulliau mwy anffurfiol o weithredu ac ymchwil marchnata i fesur barn y bobl ifanc. Nid yw'r naill dull yn hollol anghyson a'r llall.

14 Ychydig o dystiolaeth a gawsom o gysylltiadau â chyflogwyr ac mae hynny'n groes i'r duedd gyffredinol tuag at bartneriaeth rhwng addysg a diwydiant. Ein cred ni yw y byddai mantais i'r ddwy ochr o greu cysylltiadau adeiladol ac fe awgrymwn ni y dylai'r Fforymau Sirol drafod hyn gyda'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter (CHM).

Dyrannu a dirprwyo adnoddau

15 Mae rheolaeth leol ysoglion (RhLY) yn cynnig model o ddyrannu adnoddau drwy gyfrwng fformwla a dirprwyo rheolaeth i lefel yr uned (ysgol) a all fod yn gymwys i feysydd gwasanaethau eraill. Ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, fe graffwn ar ddyrannu adnoddau:

- o'r Swyddfa Gymreig a'r AALl i gyrff gwirfoddol;
- o'r AALl i ardaloedd neu gymdogaethau o'u mewn;
- o'r AALl (boed ar lefel sir neu ardal) i glybiau a phrojectau.

16 Fe gasglwn ni fod angen mwy o gydlynw rhwng dyrannu grantiau i gyrff gwirfoddol ar y lefel genedlaethol a'r lefel sirol. Dylid archwilio'r posiblwydd o gael model wedi'i integreiddio, a rhoi prawf ar ymarferoldeb contractau tymor hirach i gyrff gwirfoddol.

17 Fe gasglwn hefyd y dylai AALl symud i gyfeiriad dyrannu cyllidebau i'r ardaloedd ar sail fformwlâu a seiliwyd ar anghenion (gan adeiladau ar y model NACYS lle bo hynny'n briodol), er ein bod yn cydnabod y gall y symud o batrymau hanesyddol gwariant fod yn araf. Ni ddylid ariannu cyllidebau clybiau a phrojectau unigol ar fformwla ond dylid eu penderfynu ar sail contract ar y lefel ardal. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys elfen o gynigion cystadleuol.

18 Ynglŷn â dirprwyo rheolaeth fe ystyriwn dair lefel o ddirprwyo:

- i'r gwasanaeth ieuenctid cyfan ar lefel sirol;
- i'r lefel ardal;
- i'r clwb a'r project unigol.

19 Ein barn ni yw mai'r peth lleiaf y gellir ei ddymuno yw dirprwyo rheolaeth lawn y gwasanaeth i'r lefel sirol. Mewn achosion lle mae gwaith ieuenctid yn rhan o wasanaeth addysg gymunedol wedi'i integreiddio fe all hyn olygu bod angen trin y gwasanaeth i gyd yn yr un ffordd.

20 Fe gredwn ni hefyd mai'r ardal yw'r lefel gywir ar gyfer cynllunio gweithredol ac y dylai gael ymreolaeth sylweddol i ddatblygu gwaith ieuenctid yn y dull sydd fwyaf addas i ddiwallu'r anghenion lleol. Mae hyn yn golygu gradd uchel o ddirprwyo rheolaeth. Cynigiwn strwythur ar gyfer pwyllgor ardal a fyddai'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd a wneir o adnoddau. Hwyrach y bydd techneg cynllunio busnes o gymorth i ddatblygu cynlluniau gweithredu.

21 Mae clybiau a phrojectau unigol yn rhy fach i gael profiad o radd helaeth o ryddid o ddirprwyaeth lwyr, o gofio bod cynifer o'u costau'n sefydlog ac y gellid cael yr argraff mai dim ond cynyddu'r baich gweinyddu ar staff lleol a wneid. Gwell ateb, yn ein barn ni, yw caniatáu i glybiau a phrojectau ddargyfeirio gwariant rhwng penawdau cyllidol ar wahân i staffio amser-llawn. Byddai hynny'n creu dogneau bach ond arwyddocaol o ryddid ac yn peri i'r clybiau a'r projectau a gynhelir gydymffurfio â'r rhai yn y sector gwirfoddol.

Arolygu a Gwerthuso

22 Fel yn Lloegr, nid yw'r gwaith o arolygu a gwerthuso gwaith ieuenctid ar hyn o bryd yn ddigon praff. Mae angen model mwy grymus, yn ein barn ni, ar sail ymwerthuso ar lefel y clwb neu'r project (a'r lefel ardal). Fe fydd angen cynhaliaeth ar glybiau a phrojectau yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol wrth symud i'r cyfeiriad hwn.

23 Fe ddylai rheolwyr y gwasanaeth ieuenctid ddisgwyl ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau o ran arolygu a chynghori. Fe fydd hyn yn arwain at newid mewn rhai swyddi ac fe fydd angen ei gynnal â chynghor o'r canol a hyfforddiant mewn-swydd.

24 Mae angen i'r gwasanaeth ddatblygu dangosyddion perfformiad ar bob lefel. Mae arbrofion yn sector yr ysgolion yn cynnig patrwm defnyddiol ac fe awgrymwn ni fod y Swyddfa Gymreig a'r Asiantaeth Ieuenctid arfaethedig i Gymru yn trefnu cyfres o brojectau rhagbrofol mewn AAL1 y gellir rhannu profiadau oddi yno. O gofio tebygrwydd y materion yng Nghymru a Lloegr, hwyrach mai'r dull gorau o wneud hyn fydd ar draws y ddwy wlad a chyda chyfraniad gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth.

1 Cyflwyniad

Y Cefndir

101 Yng Nghymru yr ydym yn ymffrostio & balchder cyfiawn yng nghyfraniad y gwasanaeth ieuenctid at y ddarpariaeth addysgol yn sector yr AAL1. Mae hyn yr un mor wir am y rhaglenni a gynigir gan gyrff gwirfoddol ag am y rhai yn y sector a gynhelir. Defnyddiwn y term "a gynhelir" i olygu'r clybiau a'r projectau y cyflogir eu staffiau gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AAL1) ac y cynhelir eu costau rhedeg yn llwyr neu'n bennaf gan yr awdurdod. Defnyddid y gair 'statudol' hefyd yn gyffredinol yn ein gwaith maes ond ein barn ni yw y gall hynny fod yn gamarweiniol gan ei fod yn rhoi'r argraff fod y ddarpariaeth, ar ryw olwg, yn orfodol.

102 Yn wrthgyferbyniol i hynny, fe fyddwn yn defnyddio'r gair "gwirfoddol" i ddynodi clybiau a phrojectau sydd yn dibynnu'n llwyr neu'n bennaf ar wirfoddolwyr rhan-amser di-dâl, er bod cyrff mawr yn debyg o benodi nifer fach o staff cyflogedig. Mae'r sector gwirfoddol yn gryf yng Nghymru, yn enwedig o ran diwallu anghenion diwylliannol ac ieithyddol pobl ifanc. Mae gan y mwyafrif o'r cyrff strwythur cenedlaethol gydag unedau lleol wedi'u grwpio naill ai o fewn yr wyth AAL1 sirol neu mewn ardaloedd llai sydd yn aml yn adlewyrchu ffiniau'r awdurdodau lleol cyn 1974. Fe fydd y Swyddfa Gymreig a'r AAL1 yn cynnig grantiau er bod yr arian a dderbynnir mewn gwirionedd gan y gwahanol gyrff yn amrywio'n sylweddol. Mae'r holl AAL1 yn cynnig cymorth ymarferol, fel defnyddio adeiladau am ddim neu & chymhorthdal; mewn lleiafrif o achosion fe fenthycir staff i'r sector gwirfoddol yn ogystal.

103 Ceir nifer o ddatblygiadau diweddar sydd wedi arwain at drafodaeth ynglŷn & sut y gellid cyflwyno'r gwasanaeth ieuenctid fwyaf effeithiol wrth i amgylchedd y nawdegau newid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trafod "cwricwlwm craidd" a'r termau i'w fynegi yn y modd mwyaf cadarnhaol, yn enwedig, gan ei bod yn debyg y bydd datganiad ar wahân ynglŷn â'r cwricwlwm ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru gan gydnabod y gwahanol bwysleisiau, yn enwedig yn y sector gwirfoddol, yng Nghymru;

- symudiadau at "ariannu rhaglenni" lle mae cefnogaeth ariannol ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn gysylltiedig â chyflawni rhaglenni cwricwlaidd penodedig a/neu allbynnau a ddiffiniwyd;
- newid sylweddol yn rheolaeth AAL1 e.e. symudiadau tuag at gystadleuaeth, marchnata a chytundebau ynglŷn â'r lefel o wasanaeth;
- newid sylweddol yn y gwasanaeth addysg o ganlyniad i'r Ddeddf Diwygio Addysg.

104 Hwyrach bod effaith uniongyrchol y Ddeddf Diwygio Addysg ar y gwasanaeth ieuenctid yn ymddangos yn fach. Er enghraifft, mae'r unig gyfeiriad at y gwasanaeth yn y Ddeddf yn Adran 120 yng nghyd-destun Addysg Bellach. Mae'n datgan ei bod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleusterau digonol ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol, corfforol ac adloniannol ac ar gyfer trefnu gweithgareddau amser hamdden. Effaith hyn yw cadw grym y gofynion a ddatganwyd yn Adrannau 41 (b) a 53 (i) yn Neddf Addysg 1944 mewn bodolaeth.

105 Er hynny, mae effaith anuniongyrchol y Ddeddf ar y gwasanaeth ieuenctid yn un sylweddol. Mae'i ddylanwad yn ymestyn ar draws:

- strwythur yr AAL1, lle mae cynnydd yn y dirprwyo o ran trefnu'r gwasanaethau sy'n weddill. Mae'n amlwg y bydd unrhyw newidiadau'n effeithio ar y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir gan yr awdurdodau;
- y cwricwlwm uwchradd, drwy ddiffinio'r pynciau sydd i'w hastudio a'r lefelau sydd i'w cyrraedd. Mae hyn yn awgrymu y dylai trafodaethau ynglŷn â'r cwricwlwm gynnal deialog rhwng y sector uwchradd a'r gwasanaeth ieuenctid (gan gynnwys gwasanaethau a gynhelir a'r rhai gwirfoddol);
- dyrannu adnoddau, gan fod y cyllidebau'n cael eu cyfrifo fwyfwy ar sail anghenion a ddiffiniwyd yn hytrach nag ar gonfensiwn hanesyddol;

- dirprwyo o'r canol, gan fod pwerau ynglŷn â gwneud penderfyniadau (gan gynnwys y rheiny yn yr arena ariannol) yn cael eu symud i'r unedau sy'n cyflawni'r gwasanaeth (e.e. yr ysgol), er bod hynny o fewn fframwaith polisi a ddiffiniwyd.

Yr effaith yn y pen draw yw mai'r gwasanaeth ieuenctid bellach yw un o'r gwasanaethau addysg mwyaf sylweddol i aros o dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdodau lleol.

Diben

106 Amcan yr adroddiad hwn yw rhoi ystyriaeth i oblygiadau'r datblygiadau diweddar - yn enwedig y Ddeddf Diwygio Addysg - ar gyfer rheoli'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru yn ystod y 1990au. Er mai'r bwriad pennaf yw canolbwyntio ar y sector a gynhelir fe gredwn ni mai peth amhriodol hollol fyddai ystyried y mater heb gyfeirio'n sylweddol at gyfraniad (cyfredol a phosibl) y sector gwirfoddol.

107 Y pedair agwedd y buom yn canolbwyntio arnynt yw:

- strwythur. Ymhle y dylid lleoli'r gwasanaeth ieuenctid o fewn yr awdurdod lleol?
- cynllunio strategol. Sut y gellir cyflawni hynny'n effeithiol yn yr amgylchedd newydd?
- dyrannu adnoddau. A oes mantais i'w chael wrth ddefnyddio technegau newydd (e.e. defnyddio fformwlâu)?
- trefniadau rheoli. Beth yw'r goblygiadau ar gyfer prosesau fel dirprwyo ac arolygu?

108 Pwysig yw pwysleisio ffiniau'r adroddiad hwn. Yn gyntaf, er inni gael llawer o wybodaeth werthfawr am arferion cyfredol yn y maes, ein hamcan oedd edrych i'r dyfodol. Nid ydym wedi ceisio cynnig sylwebaeth gynhwysfawr ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth gyfredol: dyma briod faes AEM, ymgynghorwyr yr AALl ac arweinwyr o sector yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Ac yn ail, mae'r adroddiad hwn yn trafod materion rheoli'n benodol, yn hytrach na chyfanrwydd y gwasanaeth ieuenctid. Er na ellir gosod ffiniau pendant rhwng agweddau rheoli ac agweddau cwricwlaidd, yr ydym wedi ceisio gwneud sylwadau ar yr olaf yn unig lle bo'r rheiny'n cyffwrdd yn uniongyrchol â'r agweddau eraill.

Dull o weithredu

109 Comisiynwyd yr astudiaeth yn ffurfiol gan y Swyddfa Gymreig ond yr oedd yn ddarostyngedig yn ymarferol i gyngor oddi wrth Bwyllgor Llywio gydag aelodaeth a dynnwyd o'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, AEM, a Phartneriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Rhoddir y manylion yn Atodiad A.

110 Yn dilyn cyfarwyddyd cychwynnol ar y materion ac ar y dull o weithredu gan y Pwyllgor Llywio fe fuom yn gwneud gwaith maes mewn tri awdurdod gwrthgyferbyniol, sef Clwyd, Gwynedd a De Morgannwg. Yn ystod yr ymweliadau hyn fe gyfwelwyd â staff ar bob lefel oedd â chyfrifoldebau am waith ieuenctid. Ymhlith y rhain fe welwyd staff amser llawn a rhan amser, swyddogion uwch AALl a chynrychiolwyr lleol oddi wrth gyrff gwirfoddol. Yr ydym yn ddiolchgar i bawb a roes eu hamser i gynorthwyo gyda'r astudiaeth hon.

111 Yn ystod yr un cyfnod estynnwyd gwahoddiadau i'r holl AALl a chyrrff gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru gyfrannu barnau ac awgrymiadau. Cafwyd llawer o gyflwyniadau a fu o gymorth. Rhoddir rhestr gyflawn o'r cyfranwyr yn Atodiad B. Ar gyfer ail gyfarfod y Pwyllgor Llywio fe baratowyd papur oedd yn tanlinellu materion lle ceisiwyd cael rhagor o sylwadau a chyngor. Yn dilyn y cyfarfod hwn fe gynhyrchwyd adroddiad drafft terfynol a gafodd ei drafod o fewn y Pwyllgor Llywio a'i newid yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law.

112 Er ein bod wedi elwa ar lawer o awgrymiadau gwerthfawr, mae'r cyfrifoldeb am yr argymhellion yn gorwedd yn unig ar ysgwyddau Coopers & Lybrand Deloitte (C&LD).

Astudiaeth Seisnig

113 Ymgwymerwyd â'r astudiaeth yng Nghymru yn union ar ôl inni orffen astudiaeth debyg yn Lloegr ond cyn cyhoeddi'r adroddiad. I'r graddau y mae rhai materion yn debyg yn y ddwy wlad (e.e. dulliau o arolygu) yr ydym wedi defnyddio detholiad o ddeunydd o'r astudiaeth Seisnig. Ond, fe ddylid pwysleisio bod hwn yn adroddiad ar wahân sydd wedi'i drafod gyda chyd-destun ac anghenion tra gwahanol Cymru'n cael y prif sylw.

114 Mae'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru, a'r sector gwirfoddol yn benodol, yn rhoi pwyslais ar ei waith sy'n wahanol i'r pwyslais yn y gwasanaeth ieuenctid yn Lloegr. Ni cheir y proffil uchel a'r pwyslais ar weithio gyda phobl ifanc yn ystod y cyfnod o drawsnewid i fod yn oedolion ym meysydd iaith a diwylliant (e.e. dawn, drama, cerddoriaeth a chelfyddyd) i'r un graddau yn Lloegr. Ni chyfyngir y pwyslais hwn i waith Urdd Gobaith Cymru'n unig ond mae hefyd yn thema sy'n gyffredin i waith cyrff ac AALl eraill.

Strwythur yr Adroddiad

115 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- mae pennod 2 yn trafod lleoliad strwythurol y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir;
- mae pennod 3 yn trafod y materion cynllunio strategol, gan gyfeirio'n arbennig at bartneriaeth o fewn y sector gwirfoddol;
- mae pennod 4 yn trafod dyrannu adnoddau (gan gynnwys ariannu fformwla) a modelau ar gyfer dirprwyo;

- mae pennod 5 yn rhoi ystyriaeth i sicrhau ansawdd a'r defnydd newydd o ddangosyddion perfformiad.

2. MATERION STRWYTHUROL

Cyflwyniad

201 Mae'r bennod hon yn trafod lleoliad strwythurol y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir yng Nghymru. Ymdrinnir â'r cwestiynau dilynol:

- ai'r adran Addysg yw'r cartref gorau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid?
- pa effeithiau y mae'r Ddeddf yn debyg o'u cael ar strwythurau adrannau a beth yw'r goblygiadau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid?
- pa gyswllt strwythurol a ddylai fod rhwng y gwasanaeth ieuenctid a gwasanaethau sy'n perthyn yn agos iddo (e.e. ysgolion, AB, addysg gymunedol)?

Sail adrannol

202 Cyn asesu'r gilfach orau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid o fewn fframwaith addysgol, iawn yw pwyso ac ystyried a oes yna unrhyw ddewisiadau ymarferol eraill ar wahân i leoliad o fewn yr Adran Addysg. Bu un awdurdod Cymreig, er enghraifft, yn lleoli'r gwasanaeth o fewn Adran "Gwasanaethau Hamdden am gyfnod yn yr wythdegau. Fe nodasom hefyd yn ein Hadroddiad Seisnig fod modd cynnig dadleuon ar gyfer lleoli'r gwasanaeth mewn uned draws-awdurdodol. Ceir y posibilrwydd hefyd y gellid cyflawni'r gwasanaeth o hyd braich o'r awdurdod ar sail gytundebol. Yn yr achos olaf hwn mae arwyddocâd yr adran sy'n ei 'gartrefu' o bwysigrwydd israddol. Fe rown ystyriaeth i bob un o'r tri dewis hyn.

Hamdden ac Adloniant

203 Yng Nghymru cafwyd cytundeb llwyr fod gwaith ieuenctid yn athronyddol yn rhan o'r gwasanaeth addysg a bod y drafodaeth gyfredol ynglŷn â'r cwricwlwm yn awgrymu fframwaith o'r fath yn gryf iawn. Yr oedd y rhesymau a roddwyd gan mwyaf ynglŷn â diwylliant a gwerthoedd. Y gofid oedd y byddai'r nodau mewn cyd-destun Hamdden ac Adloniant fwy ynglŷn ag effeithlonrwydd, cynyddu presenoldeb ac ehangu adnoddau nag ynglŷn â chenhadaeth addysgol y gwasanaeth ieuenctid.

204 Yn ein barn ni mae'r dadleuon hyn yn rhai cryf, yn enwedig ar adeg pan fo datganiad ar wahân ynglŷn â chwricwlwm ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru yn debyg o bwysleisio amcan addysgol y gwasanaeth. Ond mae'r esboniadau a roddwyd gan y rheiny sydd wedi ystyried symud allan o'r Adran Addysg bron yn ddiethriad yn rhai negyddol yn hytrach na bod yn gadarnhaol. Mewn geiriau eraill, yn nodweddiaol, rhwystredigaeth oherwydd profiadau o fewn yr adran Addysg sy'n gosod ystyriaeth o'r fath ar yr agenda yn hytrach nag ymlyniad pendant at leoliad arall.

205 Mae'r rhwystredigaeth yn ei dangos ei hun mewn dwy ffurf:

- ariannol, y teimlad mai'r ysgolion a'r colegau sy'n cael y flaenoriaeth o ran adnoddau a bod y gwasanaeth ieuenctid yn sylweddol brin o adnoddau;
- statws, y teimlad fod gan swyddogion uchaf y gwasanaeth ieuenctid statws cymharol isel o fewn yr adran a'u bod yn annhebygol, er enghraifft, o fod yn aelodau o'r tîm rheoli.

206 Nid oedd y rhwystredigaethau hyn yn ymddangos yn argyfyngus yng Nghymru er eu bod yn weladwy mewn rhai awdurdodau serch hynny. Ein hargraff ni oedd bod y gwasanaeth ieuenctid yn uchel ei barch at ei gilydd ac nad oedd wedi dioddef yn anghyfartal o ran dyraniad adnoddau yn wyneb y gostyngiadau mewn gwariant yn y sector cyhoeddus. Un agwedd arbennig o gadarnhaol oedd diddordeb a chefnogaeth yr aelodau etholedig, oedd weithiau â chysylltiadau â gwaith ieuenctid mewn swyddogaeth wirfoddol.

207 Mae'r ffaith bod yr holl AALl yng Nghymru yn awdurdodau sirol hefyd yn ddadl dros gadw'r gwasanaeth ieuenctid o fewn yr adrannau Addysg. Mae llawer o'r awdurdodau Seisnig sydd â gwasanaethau ieuenctid wedi'u lleoli mewn mannau eraill mewn gwirionedd yn fwrdeistrefi metropolitan sy'n dwyn y prif gyfrifoldeb dros hamdden yn ogystal â gwasanaethau addysg ar sail unedol. Mae cyfrifoldebau'r awdurdodau Cymreig dros hamdden yn gymharol gymedrol (o'u cymharu â'r awdurdodau dosbarth) ac yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag addysg beth bynnag (e.e. amgueddfeydd, y celfyddydau, llyfrgelloedd).

208 Ein casgliad yw nad oes dadleuon cryf dros symud y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir i fframwaith hamdden ac adloniant yng Nghymru ar hyn o bryd.

Uned draws-awdurdodol

209 Fe nodwn wrth fynd heibio mai patrwm posibl arall fyddai lleoli'r gwasanaeth ieuenctid mewn uned draws-awdurdodol lle byddai'r holl wasanaethau a anelir yn unionsyth at ystod oed ieuenctid wedi'u gosod ynghyd. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau eraill o'r adran Addysg (e.e. gyrfaedd) ac yn ogystal o adrannau eraill (e.e. y Gwasanaethau Cymdeithasol). Mewn model radicalaidd - nad oes yr un AALl erioed wedi rhoi cynnig arno cyhyd ag y gwyddom ni - fe symudid y gwasanaethau hyn yn llythrennol o'u lleoliad presennol a'u cyflawni o'r uned newydd. Byddid o leiaf yn elwa ar hynny drwy sicrhau cydlyniant rhwng gwasanaethau a anelir at yr un grŵp o gleientau.

210 Ein casgliad yw y byddai trefniant o'r fath yn rhesymegol yn unig petai dull o weithredu o'r fath a gyfeirir at y cleient (yn hytrach nag at y gwasanaeth) yn cael ei gymhwyso ar draws yr amrediad cyflawn o wasanaethau cyngor. Ni welwn unrhyw frwdfrydedd o blaid hyn yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai fersiwn llai eithafol o'r model hwn yn golygu sefydlu tîm cyd-drefnu o swyddogion a fyddai'n cynrychioli'r gwahanol wasanaethau (ond yn cael eu darparu yn y gwahanol adrannau) er mwyn sicrhau elfen o gydweithredu ar draws yr awdurdod. Fe allwn weld rhinwedd yn hyn, ar yr amod bod modd i'r tîm weithredu'n effeithiol gyda'r lleiafswm o adnoddau. Y perygl yw y gall grŵp o'r fath gynhyrchu ei rym ei hun a magu gorbenion drud.

Trefniant o hyd braich

211 Byddai'n bosibl i'r AALL sicrhau darparu gwasanaeth ieuenctid heb ei reoli'n uniongyrchol fel rhan o unrhyw adran bresennol. Ceir ystod o bosibiliadau ac o'r rheiny, amlinellir tri yma. Yn gyntaf, fe allai'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir fod yn un uned ag iddi un gyllideb. Byddai Pennaeth y Gwasanaeth yn adrodd i Fwrdd yn cynnwys nifer fach o gynrychiolwyr a enebid gan yr AALL; gallai'r rhain fod yn aelodau neu'n swyddogion AALL neu'n gymysgedd o'r ddau, a gellid cael lle hefyd i gynrychiolwyr y sector gwirfoddol. Câi'r lefel o wasanaeth a ddarperid a'r gellideb y byddai ei hangen eu sefydlu gyda'r AALL bob blwyddyn, a byddai staff y gwasanaeth yn dal i gael eu cyflogi gan yr AALL. Byddai'r model yn debyg i fodel Gweithluoedd Uniongyrchol a sefydlwyd mewn llawer awdurdod ar gyfer rhai gwasanaethau (ee arlwyo a glanhau ond hefyd, yn gynyddol, y gwasanaethau proffesiynol). Yn y drefn hon, yr AALL yw'r "cleient" a'r gwasanaeth ieuenctid yw'r "contractiwr". Cymhariaeth arall - ac un a allai fod y fwy ystyrlon i staff y gwasanaeth ieuenctid fyddai'r gymhariaeth ag ysgol RhLY yn mwynhau cryn dipyn yn fwy o ymreolaeth leol.

212 Ail bosibilrwydd fyddai bod yr AALL yn datgan ei ofynion ar gyfer darpariaeth ieuenctid o ran cwricwlwm, ehangder ac ansawdd ac yn negydu contract gyda nifer o weithredwyr ar gyfer ei gyflawni. Gallai'r gweithredwyr hyn gynnwys y gwasanaeth a gynhelir gan yr AALL ei hun, gwasanaethau a gynhelid gan awdurdodau cyfagos a'r sector gwirfoddol. Fel estyniad i'r model hwn fe allai'r AALL wahodd cynigion cystadleuol oddi wrth unrhyw weithredwyr posibl yn hytrach na thrafod gyda gweithredwyr sefydledig yn unig. Ond byddai'n bwysig sicrhau mai ansawdd y gwasanaethau a amlinellid yn y ceisiadau, yn hytrach nag ansawdd cyflwyniad y cais, yw maen prawf y penderfyniad.

213 Trydydd posiblirwydd yw y gellid creu rhyw fath newydd o gorff, o bosibl yn cynnwys consortiwm o weithredwyr yn y sector a gynhelir, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, i gyflawni'r gwasanaeth mewn ardal neilltuol. I bob pwrpas y corff hwn fyddai'r unig ymgwymerwr, er y byddai'n debyg o is-osod cytundebau gyda gweithredwyr eraill. Gallai gymryd amryw ffurfiau, er enghraifft, cwmni nad yw'n gwneud elw ym meddiant AALL yn llwyr neu'n rhannol a'i staff yn cael ei gyflogi gan y cwmni ac nid gan yr AALL.

214 Bydd yn amlwg bod materion ynglŷn â lleoliad adrannol yn mynd braidd yn ddibwys pan fyddir yn trafod modelau mor flaengar. Ein barn ni er hynny, bynnag, hyd yn oed pe dewisid model hyd braich, yw y llenwid swyddogaeth y "cleient" ar ran yr awdurdod gan yr adran Addysg.

215 Er y gall fod manteision mawr i'r gwasanaeth ieuenctid (ee proffil uwch, dirprwyo ariannol, mwy o ymreolaeth) yn rhai o'r modelau hyn y cwestiynau a drafodir fydd:

- a fyddai unrhyw fantais i'r AALl, gan nad yw ei fuddiannau'n cydymffurfio, mae'n amlwg, â buddiannau'r gwasanaeth ieuenctid?
- a fyddai unrhyw fantais i'r cleientau (hy y bobl ifanc)?

216 Ein barn ni yw bod lle i gredu y byddai manteision. Er enghraifft, os cymerwn yr ail fodel cychwynnol a amlinellwyd uchod (hy yr un lle bydd yr AALl yn penderfynu ei anghenion crynswth er mwyn darparu ar gyfer ieuenctid a chontractau gyda'r pleidiau sydd â diddordeb drwy broses o negydu neu drwy gynigion agored) fe allai'r manteision i'r awdurdod gynnwys:

- eglurder. Mae'r model yn gorfodi'r AALl i graffu ar ei ofynion o'i egwyddorion cyntaf;
- ansawdd. Fe ysgrifennid y safonau angenrheidiol i'r contract. Ni fyddid yn adnewyddu contractau unrhyw ddarparwr na fyddai'n bodloni'r safonau hyn.

Mae hefyd yn hollol gyson â'r syniad o'r "awdurdod galluogol" lle ystyrir bod swyddogaeth yr AALl yn ymwneud yn fwy â phenderfynu polisi, dyrannu adnodau a sicrhau ansawdd na chyflawni'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

217 Ar yr un pryd, mae pob rheswm dros dybied y byddai cleientau'r gwasanaeth (hy y bobl ifanc eu hunain) yn elwa ar y pwyslais cryfach ar eglurder ac ansawdd. Fe allai arwain at wasanaeth mwy cydlynus lle ceid gwell dealltwriaeth o ystod y ddarpariaeth sydd ar gael a'r angen i fodloni'r safonau ansawdd. Fe allai fod manteision hefyd i'r sector gwirfoddol gan y ceid mwy o gydraddoldeb â'r sector a gynhelir gan yr awdurdod o ran derbyn cynhaliaeth a chefnogaeth ariannol gan yr AALl.

218 Wrth gynnig y modelau hyn i'w hystyried, nid ydym yn bychanu'r swm o waith pellach a fyddai'n angenrheidiol i ddatblygu cynnig ymarferol, nid lleiaf o ran datblygu diffinadau digonol o'r cwricwlwm a gâi ei gynnig a'r dulliau o fesur ansawdd. Fe fyddai newid o'r fath hefyd yn gofyn ymgynghori o ddifrif â'r holl bartion yr effeithid arnynt. Er hynny, ein barn ni yw y gallai'r traddodiad o gydweithio yng Nghymru, nid yn unig rhwng y sectorau a gynhelir a'r rhai gwirfoddol ond hefyd yn y cyd-destun hwn rhwng yr arweinwyr a'r aelodau, gynnig tir ffrwythlon ar gyfer profi'r cyfryw fodelau.

219 Ein casgliad cyffredinol yw mai'r adran Addysg yw'r lleoliad iawn os parheir i ddarparu'r gwasanaeth ieuencid o fewn fframwaith AALI traddodiadol. Ond fe adawn yn agored y posibilrwydd o gael model mwy arloesol.

Effaith y Ddeddf Diwygio Addysg

220 Fe gaiff y Ddeddf Diwygio Addysg draw effaith ar strwythurau adran Addysg a all gael goblygiadau ynglŷn â lleoliad y gwasanaeth ieuencid. Yn yr adran hon ac o hyn ymlaen fe gymerwn yn ganiataol mai mewn addysg y mae cartref y gwasanaeth ieuencid.

221 Mewn termau cyffredinol fe welwn swyddogaeth allddodol AALI o ganlyniad i'r Ddeddf fel:

- cynllunio strategol a dyrannu adnoddau;
- arolygu a gwerthuso;
- darparu amrediad o wasanaethau cynnal i sefydliadau;
- darparu gwasanaethau uniongyrchol i ddisgyblion, i deuluoedd ac i'r gymuned.

222 Mae hyn yn arwain at ryw gymaint o ailasesu ar y strwythurau sydd fwyaf addas i adrannau Addysg yn yr amgylchedd newydd. Y model sy'n prysur ennill cefnogaeth - ac un a argymhellion i'w ystyried o ddifrif - yw grwpio'r gwasanaethau ynghyd yn ôl cleientau. Yn nodweddiadol, fe geir tri grŵp, fel a ganlyn:

Prif GleientEnghreifftiau o Wasanaethau a gyflawnir

awdurdod lleol

datblygu polisi
dyrannu adnoddau
arolygu ac archwilio

ysgolion a cholegau
("cynnal sefydliadau")

cynghori ynglŷn â'r cwricwlwm
gwasanaethau cyflogau a TG
HMS

myfyrwyr a theuluoedd
("gwasanaethau cleient unigol")

gwasanaeth gyrfaoedd
gwaith cymdeithasol addysg
dyfarniadau i fyfyrwyr

223 Fe sylwasom mai cymharol ychydig o awdurdodau yng Nghymru oedd wedi ailstrwythuro'u hadrannau Addysg mewn unrhyw fodd sylfaenol er y deallwn fod amryw ar hyn o bryd yn cynllunio newidiadau. Fe ystyriwn y strwythurau cyfredol yn yr adran nesaf wrth drafod cysylltiadau â gwasanaethau eraill ond, at ddibenion yr adran hon y mater allweddol yw ymhle y dylid lleoli'r gwasanaeth ieuencid a gynhelir mewn adran a ailstrwythurwyd.

224 Fe geir dau brif ddewis. Y cyntaf fyddai gosod y gwasanaeth mewn cyfadran "cynnal sefydliadau". Mae hyn yn caniatáu dangos cysylltiadau agos ag ysgolion a cholegau mewn modd gweladwy. Ond fe geir anfanteision, gan gynnwys:

- y perygl y gwelir y gwasanaeth ieuencid fel gwasanaeth a leolir mewn adeiladau. Byddai hyn yn mynd yn erbyn yr athroniaeth ynglŷn ag addysg gymunedol a fabwysiadwyd gan amryw AAL1 yng Nghymru;
- y ffaith anochel y bydd yr adran braidd yn fawr ac fe allai'r gwasanaeth ieuencid ddiodef o gael ei weld fel cydran fach.

225 Y dewis arall fyddai lleoli'r gwasanaeth mewn adran "gwasanaethau cleient unigol". Mae gan hwn yr atyniad mawr ei fod yn pwysleisio mai'r person ifanc yw raison d'être y gwasanaeth. O fewn yr adran hon, byddai gwaith ieuenctid yn debyg o gael proffil uwch: fe adlewyrchai hyn y flaenoriaeth a roddir i'r gwasanaeth yng Nghymru. Byddai'n ofynnol, fodd bynnag, i reolwyr y gwasanaeth a gynhelir roi blaenoriaeth uchel i gynnal cysylltiadau gweithiol cadarnhaol gyda'r ysgolion a'r colegau.

226 Yn hyn o beth fe fyddent mewn sefyllfa debyg i'r rheolwyr yn y sector gwirfoddol. Mae gan hwnnw ddimensiwn cwricwlaidd ac ariannol. Yn y cyd-destun olaf hwn, fe ddylid pwysleisio y bydd angen nodi'r holl gostau, yn ôl Rheolaeth Leol Ysgolion (RhLY), sy'n codi o ddefnyddio anheddau ysgolion a cholegau gan y gwasanaeth ieuenctid (boed yn un a gynhelir neu'n wirfoddol) a'u gosod yn erbyn y gyllideb briodol. Tra bo modd i'r AALL roi cymorthdaliadau o'u cyllidebau canolog os dymunir, ni ddylai costau ddisgyn ar gyllidebau a ddirprwyir i'r ysgolion a'r colegau. Er inni ddod o hyd i ychydig enghreifftiau yng Nghymru lle nad oedd mynediad y gwasanaeth ieuenctid i anheddau ysgolion a choleg yn cael ei ddiogelu'n llwyr gan AALL fe allai gwasgu am newid ddigwydd yn y dyfodol. Fe gynigwn fodel posibl ar gyfer ariannu gosodiadau ar gyfer grwpiau ieuenctid gan AALL yn Atodiad C.

227 Mae'r ffaith mai ychydig o AALL yng Nghymru sydd wedi penderfynu eu strwythur adrannol cyfnod hir yn fanteisiol i reolwyr y gwasanaeth ieuenctid gan y bydd hynny'n eu galluogi i feddwl am y materion hyn o flaen llaw a gwneud cyfraniad llawn at y ddadl. Y status quo ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ieuenctid a gynhelir yw lleoliad yng nghyd-destun addysg gymunedol. Yn wir, mae llawer wedi cael profiad o ailstrwythuro yn ystod y blynyddoedd diweddaraf yn benodol er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon. Fe drafodwn yn awr briodoldeb y cyfryw leoliad yn yr amgylchedd ar ôl y Ddeddf Diwygio Addysg.

Cysylltiadau â gwasanaethau perthynol

228 Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ieuenctid a gynhelir yng Nghymru wedi'u lleoli mewn cyfadrannau AB o fewn yr Adran Addysg. Fe all y cyswllt ffurfiol hwn ag Addysg Bellach fod braidd yn gamarweiniol gan mai'r duedd gynyddol yn ymarferol fu gosod gwaith ieuenctid mewn fframwaith addysg gymunedol sy'n darparu ar gyfer cleientau o'r ifanc dros ben i bobl wedi ymddeol.

229 Y ddau gwestiwn allweddol yw:

- ymhle y dylai gwasanaeth addysg gymunedol cyfunol gael ei leoli mewn adran a ailstrwythurwyd?
- a yw'n well lleoli gwaith ieuenctid mewn gwasanaeth addysg gymunedol cyfunol neu a ddylid rhoi hunaniaeth arwahanol iddo drwy gael gwasanaeth ieuenctid a gynhelir ar wahân?

Mae'n dilyn o'r drafodaeth yn yr adran flaenorol y dylai'r cartref dewisol newydd (ond nid anochel) ar gyfer gwasanaeth addysg gymunedol fod yng nghyd-destun "gwasanaethau cleient unigol".

230 Y perygl gyda lleoliad mewn adran gwasanaethau cyfundrefnol yw yr ystyrir fod addysg gymunedol, yn yr isymwybod o leiaf, yn debyg i'r cyfundrefnau eraill yn yr adran (hy ysgolion a cholegau yn cynnig rhaglen ffurfiol ac wedi'i lleoli mewn adeilad). Mae hyn yn dweud rhywbeth am sylfaen athronyddol y gwasanaeth sy'n anfuiddiol oblegid:

- denir llawer o gleientau'r gwasanaeth i addysg gymunedol yn union am nad yw'n rhan o'r sector statudol gyda'i ddiwylliant gwahanol;
- mewn ardal wledig gwell yw cyflwyno llawer o'r gwasanaethau ar batrwm o ddatganoli (h.y o'i gyferbynnu â chyflwyno'r gwasanaeth yn adeiladau'r awdurdod mewn lleoliad canolog).

231 Fe gasglwn gan hynny fod y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir a hefyd addysg gymunedol yn gyffredinol wedi'u cyfeirio fwy tuag at gleientau unigol nag at gyfundrefnau. Y cwestiwn sydd ar ôl yw a ddylid "integreiddio" gwaith ieuenctid neu ei gyflwyno ar wahân. Mae llawer o blaid integreiddio, ac nid dim ond ar lefel athronyddol. Mewn termau mwy ymarferol:

- mae'n caniatáu cynllunio ar y cyd gyda chhydrannau eraill o addysg gymunedol yn enwedig yn yr ardal leol;
- mae'n hyrwyddo cydweithio a rhannu adnoddau.

232 Fe hoffem nodi dau rybudd, fodd bynnag. Yn gyntaf mae perygl mewn model cyfunol y byddai ochr y gwaith ieuenctid yn cael blaenoriaeth is dros amser. O leiaf lle ceir gwasanaeth ieuenctid ar wahân fe geir carfan ddylanwadol yn pleidio achos gwaith ieuenctid. Gellir defnyddio'r un dadleuon hefyd ynglŷn ag addysg oedolion a chhydrannau eraill y dull integreiddiol, wrth reswm. Byddai angen cysoni barnau unrhyw un grŵp proffesiynol â barnau grwpiau eraill o fewn fframwaith cyfunol.

233 Mae'r ail rybudd yn ymwneud â symudiadau posibl i gyfeiriad y modelau mwy radicalaidd a ddisgrifiwyd yn gynharach. Mae'n amlwg y byddai'n fwy anodd gosod cytundebau ar gyfer gwaith ieuenctid yn allanol, petai'r ddarpariaeth yn un elfen yn unig mewn gwasanaeth addysg gymunedol cyfunol. Ni fyddai'r broblem yn codi, wrth reswm, ped ystyrrid fod y cytundeb yn cynnwys addysg gymunedol yn gyfan gwbl yn hytrach na gwaith ieuenctid yn benodol. Ar gyfer model y Gyfundrefn Gwasanaeth Uniongyrchol o leiaf, fe allai hyn fod yn bur ddeniadol.

Casgliadau

234 Yn y bennod hon yr ydym wedi dod i'r casgliadau hyn:

- fod y gwasanaeth ieuenctid wedi'i leoli'n gywir o fewn adrannau Addysg;
- fod modelau mwy arloesol ar gael ar gyfer cyflwyno gwaith ieuenctid a allai fod yn fuddiol i'r gwasanaeth ieuenctid a'i gleientau;
- mewn adran Addysg a ailstrwythurir fe ddylid grwpio'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir gyda gwasanaeth sy'n gogwyddo i gyfeiriad yr unigolyn fel cleient yn hytrach nag i gyfeiriad ysgolion a cholegau;

- byddai cyfuno o fewn addysg gymunedol yn dal i fod yn fodel priodol (er nad yr unig un) o fewn adran a ailstrwythurwyd.

3 CYNLLUNIO STRATEGOL

Cyflwyniad

301 Y broses reoli a drafodir yn y bennod hon yw cynllunio strategol - ond partneriaeth yw'r brif thema. Wrth sôn am gynllunio strategol y gwasanaeth ieuenctid yr ydym yn sôn am wneud penderfyniadau ar lefel uwch sydd:

- yn diffinio'r fframwaith cyffredinol ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer ieuenctid;
- yn asesu'r angen ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth;
- yn sefydlu blaenoriaethau ac amcanion yn wyneb y cyfyngiadau ar adnoddau;
- yn dyrannu adnoddau ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth yn unol â'r blaenoriaethau;
- yn arolygu a gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae hyn i'w wrthgyferbynnu â chynllunio gweithredol, sef gwneud penderfyniadau ar lefel is ynglŷn â sut y gellid gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a ddyrannwyd a chael y gwasanaeth lleol mwyaf effeithiol.

302 Wrth bartneriaeth yr ydym yn sôn am gydweithio gan y gwahanol bleidiau i ymgyrraedd at amcanion a gytunwyd. Fe ganolbwyntiwn yn arbennig ar y cysylltiadau rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol ond yr ydym hefyd yn cyfeirio at gyfraniad posibl pobl ifanc a chyflogwyr.

303 Y materion a drafodir yn y bennod hon yw:

- problemau ynglŷn â chynllunio ar y cyd;
- fframwaith newydd;

- cyfraniad pob ifanc;
- cyfraniad cyflogwyr.

Problemau cynllunio ar y cyd

304 Yr oedd cytundeb eang drwy Gymru mai cynllunio ar y cyd rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol yw'r model iawn ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid. Fe sylwasom ar beth diffyg eglurder, fodd bynnag, ynglŷn â beth a olygai hyn mewn gwirionedd a pheth amheuaeth ynglŷn ag ymroddiad y ddwy ochr i'w sicrhau. Yr oeddem hefyd yn ymwybodol o hydeimleddau nad oeddid yn eu hwynebu.

305 Yn ein barn ni mae athroniaeth o gynllunio ar y cyd yn golygu rhannu'r berchnogaeth ar allbwn y broses yn y pen draw. Yn ymarferol fe welwyd y byddai'r sector a gynhelid yn rhoi cychwyn ar ei gynlluniau yn fewnol ac yna'n ymgynghori â'r sector gwirfoddol wedyn. Byddai llwyddiant y broses ymgynghori'n amrywio'n fawr ac yn aml yr oedd yn bell o fod yn effeithiol. Y canlyniad i hyn oedd na fyddai'r cyrff gwirfoddol yn teimlo eu bod yn berchen ar yr hyn oedd i bob golwg yn strategaeth sirol sector yr awdurdod. Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa a welsom yn Lloegr.

306 Yn ôl y ddamcaniaeth, fe dybid y byddai athroniaeth o gynllunio ar y cyd yn gweithredu i'r ddau gyfeiriad: felly fe ddylai'r sector a gynhelir wneud mewnbyn i gynllunio rhaglenni'r cyrff gwirfoddol. Yn ymarferol, mae hyn yn codi nifer o broblemau. Mae gan y cyrff gwirfoddol eu hagenda eu hunain, yn deillio (yn hollol gywir) o'u datganiad o nodau a'u hamcanion. Fe all y rhain gyd-fynd ag amcanion yr AAL1 neu ddim. Sut bynnag, hawdd deall fod y sector gwirfoddol yn sensitif ynglŷn â'r hyn y gellid ei ddehongli fel "ymyrraeth" gan rywrai o'r tu allan i'w mudiad.

307 Mae'r sensitifrwydd hwn yn codi mewn meysydd eraill hefyd. Mae'r drafodaeth gyfredol ynglŷn â'r cwricwlwm wedi canolbwyntio'r sylw ar y graddau y dylai'r gwasanaeth ieuenctid fod yn diwallu anghenion y cleientau sydd fwyaf mewn perygl. Mae rhai cyrff gwirfoddol yng Nghymru'n teimlo mai ymylol yn unig yw eu cyfraniad yn y meysydd hyn gan fod eu grŵp o gleientau'n

tueddu i ddod o sectorau eraill yn y gymuned. Gan hynny ychydig o gyfle ar gyfer mentrau ar y cyd a welir a cheir anfodlonwydd am eu bod yn cael eu gwrthod o ran cael rhannu arian a gyfeiriwyd yn benodol i waith gyda'r grŵp o gleientau sydd "mewn perygl".

308 Mae rhagor o sensitifrwydd yn bodoli ynglŷn â dyrannu arian gan AALL i gyrff gwirfoddol. Bydd yr awdurdodau'n disgwyl fwyfwy fod y grantiau hyn yn cael eu cysylltu â chyflawni rhaglenni neilltuol neu allbynnau sy'n cyd-fynd â strategaeth y sir. Tra bo'r sector gwirfoddol yn gyfarwydd â'r symudiad hwn tuag at ariannu rhaglenni (e.e. fe'i defnyddir hefyd gan y Swyddfa Gymreig), mae rhai cyrff yn gofidio rhag ofn y byddai'r dull hwn o weithredu'n cyfaddawdu eu nodau a'u hamcanion cyffredinol. Pe bai gwrthdaro uniongyrchol yn codi ni fyddai gan y cyrff hyn ddewis ar wahân i dynnu eu ceisiadau am grantiau nôl. Mae'n amlwg na fyddai hwn yn hinsawdd lle byddai cynllunio ar y cyd yn blodeuo.

Fframwaith newydd

309 Fe gredwn ni fod angen dull newydd o weithredu er mwyn sicrhau partneriaeth wirioneddol o ran cynllunio strategol. Mae hwn yn ddull o weithredu:

- lle bydd y ddau sector yn rhannu'r berchnogaeth ac yn gwerthfawrogi cyfraniad ei gilydd;
- lle hyrwyddir gwahanol werthoedd a thraddodiadau;
- lle cyfeirir yr arian prin sydd ar gael yn benodol at y cynllun a gytunir ar y cyd.

310 Er mwyn i'r dull hwn o weithredu fod yn effeithiol mae'n hanfodol fod pob sir yn meddu ar fforwm ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol. Mater i'r siroedd ei benderfynu fyddai'r manylion ac yn wir mae amryw eisoes wedi sefydlu corff o'r fath. Er hynny, fe ddylid ei gwneud yn hollol glir fod gan y fforwm swyddogaeth ymarferol i'w gweithredu: ni ddylai fod yn grŵp ymgynghorol a goddefol yn unig. Ei brif swyddogaeth bob blwyddyn fyddai diffinio fframwaith y ddarpariaeth ar gyfer ieuencid o fewn pob sir, yn seiliedig ar yr anghenion a aseswyd ar gyfer y gwahanol grwpiau o gleientau. Byddai hefyd yn ffurfioli rhai blaenoriaethau a thargedau ar gyfer y flwyddyn y byddai'r holl grwpiau oedd yn aelodau'n cyfrannu atynt. Ni fyddai hyn yn ceisio disodli neu gyfaddawdu amcanion

creiddiol pob corff cyfrannol. Fe gydnabyddai fodd bynnag fod yr holl aelodau'n gweithio y tu mewn i fframwaith oedd wedi'i chytuno.

311 Hwyrach y byddai gan y fforwm rai o'r nodweddion canlynol er mwyn cydymffurfio â'r arferion gorau:

- cyswllt ymgynghorol eglur â'r Pwyllgor Addysg ynglŷn â pholisi, blaenoriaethau a dyrannu adnoddau;
- aelodaeth sy'n cynnwys aelodau etholedig perthnasol o'r AALL yn ogystal â rheolwyr yn y sector a gynhelir ac yn y sector gwirfoddol. Delid swydd y cadeirydd am gyfnod penodedig a byddai'n agored i gynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r sector a gynhelir;
- cyfrifoldeb o'r pwys mwyaf i gynhyrchu cynllun strategol cyfnod canol (h.y. 3 - 5 mlynedd) gyda thargedau blynyddol. Byddai'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, o fewn cyfyngiadau cydnabyddedig ynglŷn ag adnoddau ac yn cynnwys targedau rhesymol (yn hytrach na thargedau rhy uchegeisiol);
- arolygu perfformiad yn erbyn targedau ac adolygu (a diwygio) rhai rhannau o'r cynllun yn flynyddol;
- asesu'r newidiadau yn yr anghenion a'r ddarpariaeth ar sail adroddiadau oddi wrth gyrrff unigol ac ardaloedd lleol;
- fe fyddai'r cynllun yn cynnwys strategaethau ar gyfer hyfforddi a gweithredu ar y cyd ar draws y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol.

312 Mae'r pwynt olaf hwn ynglŷn â hyfforddiant ar y cyd yn codi cwestiwn mynediad i hyfforddiant o ansawdd uchel gan weithwyr gwirfoddol, sy'n un o'r prif fanteision ymarferol a gynigir gan yr AALL. Mae'r cyfyngiad presennol ar roi arian y Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant ar gyfer staff di-dâl yn anghysonder ymrannol sy'n tanseilio'r syniad o bartneriaeth rhwng grwpiau gwirfoddol sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr a'r AALL, yn ogystal ag anghymell gweithwyr gwirfoddol yng nghlybiau'r awdurdod. Mae hwn yn bwynt a wnaed wrthym yn fynych yn Lloegr ac yng Nghymru. Fe gredwn ni mai'r ffordd orau i

ddatrys hyn yw fod yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, y Swyddfa Gymreig a'r AALL yn rhoi ystyriaeth i atebion dychmygus neu'n cyflenwi'r diffyg o ran ariannu o ffynonellau eraill. Un ateb o'r fath yw fod y Swyddfa Gymreig yn cytuno i gynnig canran uwch o gymhorthdal lle mae AALL wedi rhoi addewid i ariannu lefel a ddiffiniwyd o hyfforddiant ar gyfer staff di-dâl. Byddai hyn yn caniatáu i AALL gynnig hyfforddiant i wirfoddolwyr yn ogystal ag i staff cyflogedig heb ganlyniadau ariannol adfydus. Rhoddir enghraifft lawn yn Atodiad D.

313 Yn ein barn ni fe fyddid yn ychwanegu'n sylweddol at effeithiolrwydd y fforwm pe gofynnid i'r AALL ddatblygu argymhellion ynglŷn â sut y dylid dyrannu'r gefnogaeth i'r cyrff gwirfoddol (ee grantiau, secondio, cymorth ymarferol). Fe fyddai'r argymhellion a ddeilliai o hyn yn rhai ymgynghorol a heb ymyrryd â phwerau'r AALL i wneud y penderfyniadau terfynol. Gallai manteision y dull hwn o weithredu fod yn rhai sylweddol gan gynnwys:

- cysylltu grantiau â chyflwyno cynllun strategol a ddyfeisiwyd ar y cyd;
- rhoi gwir ddylanwad i'r fforwm, a thrwy hynny hybu aelodaeth weithredol;
- dileu peth o'r diogelwch sy'n amgylchynu'r dyraniadau cyfredol;
- atgyfnerthu perchnogaeth ar y cyd o'r cynllun sirol.

314 Unwaith y bydd y fframwaith sirol wedi'i ddiffinio bob blwyddyn, fe fyddai'r gwahanol grwpiau sy'n aelodau yn gallu cynllunio manylion eu rhaglenni heb angen cynnal cyfarfodydd ar y cyd yn gyson: fe ddylai patrwm cyffredinol y rhaglen a dyraniad yr adnoddau (gan gynnwys y rhaniad rhwng y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir) eisoes fod wedi'i gytuno. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i bwynt tra phwysig, sef fod adnoddau staff y mwyafrif o gyrff ieuenctid yn brin. Byddai sefydlu mecanwaith a hawliai gyfarfodydd cyson ar y cyd ar lefel sirol yn anymarferol. Ar ben hynny, fe fyddai'r gyfran o holl weithgareddau pob corff a feddai ar unrhyw berthnasedd i strategaeth ieuenctid y sir yn amrywio'n sylweddol.

315 Am y byddai ganddo fynediad at adnoddau cynnal, fe fyddai o bosibl yn beth synhwyrol fod y gwasanaeth a gynhelir yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd. Y fforwm ei hun fodd bynnag, a fyddai'n penderfynu'r sail ar gyfer gweithredu. Ni fyddai'r fforwm yn gyfrifol am lunio manylion y cynlluniau gweithredol lleol: fe lunnid y rheiny o fewn pob ardal leol, eto gyda mewnbwn o'r sector gwirfoddol. Byddwn yn trafod hyn yn bellach ym Mhennod 4.

316 I grynhoi, felly, o safbwynt y sector gwirfoddol, fe fyddai mewnbwn anorfod ar lefel sirol i ddatblygu cynllun ieuencid sirol cyffredinol ac - yn dibynnu ar farnau'r AALL - i ffurfioli meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau. Byddai hyn yn ymrwymiad cymharol gymedrol o ran amser dros y flwyddyn. Y prif gyfraniad arall fyddai ynglŷn â chynllunio gweithredol ar lefel ardal. Mae hyn yn dangos fod eu presenoldeb yn yr holl gyfarfodydd yn berthnasol.

Ymglymiad pobl ifanc

317 Fe gydnabuwyd fod cyfraniad pobl ifanc i gynllunio'r ddarpariaeth ar eu cyfer i'w ddymuno ar bob lefel (mae clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru'n nodedig am gymwys pobl ifanc ar bob lefel o wneud penderfyniadau). Ar y lefel genedlaethol mae Fforwm Ieuencid Cymru'n gwneud cyfraniad gwerthfawr. Ar lefel y clybiau hefyd, fe geid tystiolaeth am arferion da mewn amryw glybiau a phrojectau yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol. Yr unig amheuaeth sydd gennym ynglŷn â'r olaf yw fod cyfraniad yr aelodau hynaf at bwyllgorau rheoli yn fynych yn cael ei ystyried fel pont rhwng cyfraniad fel aelod ac fel arweinydd iau; mae hyn yn dwyn perygl fod yr hyn sydd fwy na heb yn hyfforddiant anffurfiol ar gyfer arwain yn cael ei gangymryd am swyddogaeth gynrychioliadol ehangach.

318 Sut gellid corffori cyfraniad pobl ifanc at waith cynllunio yn y model a amlinellwyd uchod? Nid oes ateb amlwg ynglŷn â sut y dylid cynrychioli pobl ifanc ar lefel uchel y fforwm cynllunio sirol, neu ar lefel gynllunio ardal (cynllunio gweithredol). Un dull o weithredu fyddai estyn model Fforwm Ieuencid Cymru i bob un o'r wyth sir. Fe glywsom am rai symudiadau i'r cyfeiriad hwn. Yn wir, fe allai'r cyfryw Fforymau Ieuencid Sirol gael grwpiau ardal yn eu "bwydo" yn ogystal, gan greu strwythur hollol gyfunol i bob pwrpas.

319 Fel model damcaniaethol mae hwn yn ddeniadol ond yn ymarferol fe allai fod yn rhy anhyblyg. Fe wyddom am nifer o wahanol ddulliau o weithredu ynglŷn â chael cynrychiolaeth o bobl ifanc ar bwyllgorau cymdogaeth neu ardal ar hyn o bryd, a rhai o'r rheiny'n gweithio'n iawn yn eu hamgylchiadau arbennig. Yn rhai o ardaloedd gwledig mwyaf diarffordd Cymru, mwy ymarferol o bosibl fydd holi barn o dro i dro mewn modd mwy uniongyrchol drwy ymweld â chlybiau a mesur barnau'r rhai sydd yn bresennol. Fe welwn fantais o ddefnyddio dull o ymchwil marchnata fel hwn a model cynrychioliadol mwy traddodiadol; nid yw'r ddau yn anghynwysol i'w gilydd.

Ymglymiad cyflogwyr

320 Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o bartneriaeth ddilys gyda chyflogwyr. Gwelid cwmnïau lleol fel ffynonellau defnyddiol o nawdd a chynhalieth ymarferol ond nid fel cyfranwyr posibl at gyflwyno rhaglen. Yr oedd rhai cysylltiadau a wnaed o ganlyniad i gyfraniad y gwasanaeth ieuenctid i Gynlluniau Hyfforddi Ieuenctid (CHI) (fel yr oedd) hyd yn oed wedi edwino o ganlyniad i'r dirywiad mewn cynlluniau na seilid ar gyflogwyr.

321 Gellid meddwl fod hyn yn groes i'r symudiadau cyffredinol tuag at bartneriaethau rhwng addysg a diwydiant/masnach. Ein barn ni yw y gallai dilyn hyn yn bellach fod yn fuddiol. Er enghraifft, fe allai cyflogwyr:

- eistedd ar bwyllgorau rheoli ar lefel clwb, ardal a/neu sir, gan gyfrannu'u harbenigedd o ran cynllunio, ariannu, personél a meysydd perthynol;
- wneud cyfraniad at raglenni'r clybiau ar faterion y dydd (e.e. cynlluniau credyd hyfforddiant);
- rhoi mynediad at gadwyn hollol newydd o gysylltiadau a chymorth posibl (e.e. drwy Siambrau Masnach).

322 Ar lefel y sir byddai'n llesol petai'r cyd-fforwm cynllunio yn ymgysylltu â'r Cyngor Hyfforddiant a Menter (CHM). Byddai'n fanteisiol i'r ddwy ochr:

- gallai'r Cyngor gynnig sylwadau adeiladol ar y cynllun gwaith ieuenctid sirol embryonig o'i wybodaeth am y sefyllfa leol ynglŷn â chyflogaeth a hyfforddiant;
- byddai'r cyd-fforwm cynllunio sirol yn gallu bwydo diddordebau, dyheadau a barnau'r aelodaeth ynglŷn â'r economi lleol i'r Cyngor.

323 I bob golwg ychydig o gyswllt oedd yn bod ar unrhyw lefel rhwng y gwasanaeth ieuenctid a darparwyr y sector preifat lleol (e.e. cyfleusterau hamdden masnachol). Er ein bod yn synhwyro'r amheuan ynglŷn â sefydlu cyswllt rhy agos ein barn ni yw fod meysydd ar gael y gellid eu datblygu. Er enghraifft, efallai y bydd rheolwyr cyfleusterau hamdden lleol yn fodlon darparu lleoliad bach a fyddai ar gael i'w ddefnyddio gan weithwyr allanol. Byddai'n fodd arloesol o greu diddordeb mewn grŵp gwahanol o gleientau.

Casgliadau

324 Wrth derfynu fe grynhown y nodweddion allweddol yn y model ynglŷn â phartneriaeth ar gyfer cynllunio strategol y byddem yn dymuno'i argymhell yn y cyd-destun Cymreig. Byddai'n cynnwys:

- sefydlu fforymau cydgynllunio sirol a fyddai'n meddu ar aelodaeth gytbwys ar draws y ddau sector;
- gosod tasgau penodol iawn ar gyfer y fforymau a fyddai'n uniongyrchol berthnasol i'r holl aelodau, sef:
 - # gosod fframwaith ar gyfer y ddarpariaeth ieuenctid yn y sir;
 - # diffinio amcanion ar gyfer y cydgynllun;

argymell y sail ar gyfer ariannu gan yr AALl, yn gysylltiedig â'r cydgynllun (yn ddibynnol ar gydsyniad yr AALl);

- cadw'r holl gyfarfodydd sirol eraill i lawr i'r lleiafrif ond ceisio sicrhau cyfraniad mwy gweithredol ar y lefel ardal (y lefel weithredol);
- creu mecanweithiau ar lefelau'r sir a'r ardal i sicrhau fod pobl ifanc yn cyfrannu, o bosibl ar batrwm Fforwm Ieuenctid Cymru, ond hefyd drwy hybu mwy o ymchwil marchnata;
- archwilio llwybrau newydd o weithio ar y cyd gyda chyflogwyr ac, yn benodol, ffurfio cyswllt adeiladol gyda'r Cyngorau Hyfforddi a Menter.

Byddwn yn archwilio materion gweithredol ar lefel ardal yn y bennod nesaf.

4 DYRANNU A DIRPRWYO ADNODDAU

Cyflwyniad

401 Mae'r bennod hon yn trafod dwy broses sydd wedi'u trafod yn helaeth yn y gwasanaeth addysg o ganlyniad i Reolaeth Leol Ysgolion (RhLY), sef dyrannu adnoddau (yn enwedig dulliau fformwla o weithredu) a diprwyo rheolaeth. Fe'u gwelir fwyfwy fel dwy gydran mewn un broses. Nid felly y mae hi o anghenraid, fodd bynnag. Yn wir yng nghyd-destun y gwasanaeth ieuenctid fe fyddai'n bosibl meddwl am gyllid yn cael ei ddyrannu ar sail hanesyddol/cynyddrannol ond yn cael ei reoli'n lleol gyda hunanreolaeth sylweddol. Dewis arall fyddai y gellid penderfynu cyllid ar sail fformwla ond byddai'n ddarostyngedig i reolau o'r canol. Felly fe rown ystyriaeth i'r ddwy agwedd yn eu tro.

Dyrannu adnoddau

402 Mae llawer o brosesau ynglŷn â dyrannu adnoddau sy'n cyffwrdd â'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- o'r Swyddfa Gymreig i gyrff gwirfoddol cenedlaethol;
- o'r AAL1 i gyrff gwirfoddol ar lefel sirol;
- o'r AAL1 i ardaloedd neu gymdogaethau;
- o'r AAL1 (boed sir neu ardal) i'r clybiau a'r projectau.

Fe drafodwn y prosesau hyn yn nawr gan gynnwys sylwadau ar ddulliau o ariannu drwy fformwlâu, ariannu cytundebau a chynigion agored.

Grantiau i gyrff gwirfoddol

403 Dyrennir grantiau'n genedlaethol gan y Swyddfa Gymreig ac ar lefel sirol gan yr AALl. Yr oedd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfanswm y grantiau a dderbyniwyd gan y gwahanol gyrff gwirfoddol. Yr oedd hyn yn adlewyrchiad yn rhannol o'r amrywiaethau mawr ym meintiau'r grantiau a dalwyd gan yr wyth awdurdod sirol. Mewn gwirionedd, mae cyfanswm gwerth y grantiau i gyrff gwirfoddol wedi'i danddatgan yn y ffigurau a gyhoeddwyd yn wyneb y cyfraniadau sylweddol a wnaed 'yn ymarferol', yn fwyaf cyson drwy'r cymhorthdal a geir wrth ddefnyddio adeiladau.

404 Mae'r mater hwn ar ymyl ein maes trafod ac nid ydym yn ei drafod yn fanwl. Serch hynny fe nodwn wrth fynd heibio ein barn y gellid ystyried model mwy effeithiol:

- lle datblygir rhyw gymaint o gysondeb o ran agwedd tuag at ariannu cyrff gwirfoddol rhwng y Swyddfa Gymreig a'r AALl yn gyffredinol;
- lle trafodir rhyw gymaint o gysondeb o ran agwedd rhwng yr wyth AALl unigol;
- lle profir dichonoldeb cytundebau cyfnod hir yn genedlaethol a/neu ar lefel sirol;
- lle archwilir y posibilrwydd o gael model cenedlaethol/lleol cyfunol ar gyfer ariannu'r sector gwirfoddol.

405 Nid ydym yn anymwybodol o'r cymhlethtodd sydd ynglŷn â chyrraedd un hyd un oed o'r nodau uchod. Ond fe fyddem yn gweld hyn yn digwydd ar sail wirfoddol. Byddai unrhyw fodel a olygai ailgyfeirio arian yr AALl drwy'r Swyddfa Gymreig yn ysgogi'r math anghywir o ymateb. Byddai hefyd yn tueddu i gosbi'r awdurdodau mwyaf haelionus er ein bod yn amau fod cymorthdaliadau eisoes yn cael eu hestyn, fel mater o ffaith, rhwng cyrff gwirfoddol er mwyn cynnal eu gwaith mewn siroedd lle na cheir ond ychydig o grantiau.

AAL1 i ardaloedd neu gymdogaethau

406 Mae maintioli'r AAL1 yng Nghymru'n golygu y bydd haenau ardal neu gymdogaeth o reolaeth o gymorth wrth sicrhau ymateb dilys i anghenion lleol. Fe drafodwn agweddau rheolaethol dirprwyo yn ail hanner y bennod hon. Yn y cyd-destun presennol y materion yw a ddylid adnodi'r clybiau a'r projectau o'r canol neu o'r haenen ardal a beth yw'r sail y penderfynir y cyllidebau gwirioneddol arni.

407 Byddwn yn dadlau isod y bydd angen i'r strwythurau ardal gael eu cyllidebau eu hunain er mwyn cael hygrededd. Pa fodd y dylid penderfynu gwahanol feintiau'r cyllidebau ardal? Ceir amryw bosibliadau:

- rhannu'r cyllid sydd ar gael yn syml gan nifer yr ardaloedd. Ni fyddai hyn yn rhoi ystyriaeth i'r anghenion ac fe gâi ei wrthod o bosibl am fod yn rhy syml;
- y gwariant hanesyddol ym mhob ardal. Byddai hyn yn ddeniadol yn y tymor byr gan na fyddai neb yn "colli". Ond nid yw'r dull hwn o weithredu'n rhoi ystyriaeth i'r angen ac ni fyddid yn ei ystyried yn gam ymlaen;
- asesu'r angen. Fe roddid ystyriaeth o ddifrif i hyn ond byddai'n fwy cymhleth i'w gyfrifo ac fe fyddai'r "collwyr" yn digio.

408 Pa ffactorau a ddefnyddid o bosibl i ddiffinio angen? Y prif bosibliadau yw:

- y niferoedd (o bobl ifanc, fe dybir, yn y grŵp oedran a dargedir, ond wedi'u pwysu mewn rhyw fodd?);
- maint daearyddol (gyda phwysedd ar gyfer ardaloedd gwledig ac ardaloedd â phatrymau cludiant a chyfathrebu arbennig o anodd);
- ffactorau cymdeithasol ac economaidd;
- iaith a diwylliant (gyda phwysedd ar gyfer ardaloedd gyda galw sylweddol am ddarpariaeth ar gyfer dwy iaith) neu ddarpariaeth arbenigol;

- adeiladau (yn ôl maint a/neu gyflwr);

Fe ellid dadlau mai rhestri aelodaeth presennol y clybiau yw'r dystiolaeth orau ynglŷn â'r galw: ond mae hyn yn wahanol i'r angen ac yn ymarferol fe fyddai'r dull hwn o weithredu'n cadarnhau'r dull hanesyddol.

409 Ein barn ni yw fod dyrannu i ardaloedd yn ôl fformwla a seilir ar angen yn ddull diogel o weithredu er y byddai angen rheoli symud i ffwrdd o'r cyllidebau hanesyddol yn ofalus a dim ond dros gyfnod hir dros ben y gellid ei gyflawni o bosibl. Mewn rhai AALL mae'n bosibl mai dim ond yn nhermau penderfynu dyraniad adnoddau ychwanegol a thanlinellu'r anghyfatebiaeth rhwng y ddarpariaeth bresennol a'r angen y bydd hyn yn gwneud synnwyr. Fe wyddom am un awdurdod o leiaf sy'n archwilio'r mater fformwla yma ar hyn o bryd.

410 Rhoddwyd hwb ymlaen i'r symudiad tuag at ddyrannu yn ôl fformwla gan gyhoeddi'r model adnodd i ddatblygwyd gan Gyngor Ymgynghorol Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid (NACYS) - er na chafodd ei ddatblygu'n benodol i'r perwyl hwn. Dyluniwyd y model i fodloni'r diffyg a nodwyd gan adroddiad Thompson nad oedd gan y gwasanaeth ieuenctid ddull dibynadwy o amcangyfrif cyfanswm yr adnoddau a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer cyflwyno rhaglen ddigonol i bobl ifanc. Fformwla yw hi sy'n cyfrif y sesiynau staffio y mae eu hangen i gyflwyno'r rhaglen unwaith y bydd gwerthoedd wedi'u rhoi i nifer o ffactorau critigol (e.e. y gyfran o bobl ifanc y dylid cysylltu â nhw mewn blwyddyn, maint y grwpiau ar gyfartaledd, ac yn y blaen).

411 Casgliad y rheolwyr yn y gwasanaeth ieuenctid sydd wedi rhoi cynnig ar y model yw fod eu gwasanaeth, hyd yn oed ar ragdybiaethau cymedrol, naill ai'n or-uchelgeisiol yn yr amcanion a ddatganwyd neu heb ddigon o adnoddau i'w cyrraedd. Er hynny, rhaid gwneud rhagdybiaeth bellach cyn y gellir darganfod yr anghenion ariannu oblegid, er bod y model yn cyfrif y nifer o sesiynau staffio sy'n angenrheidiol ar gyfer ardal benodol, mae'n gadael heb ei ateb y cwestiwn ynglŷn â sut y dylid cyflwyno'r sesiynau hynny - h.y. ai gan weithwyr cyflog neu gan wirfoddolwyr di-dâl. Mae modd troi'r model o chwith hefyd a'i ddefnyddio i arddangos faint o waith ieuenctid y gellir ei gyflawni gan gyflenwad penodol o staff.

412 Mae fformwla'r Cyngor Ymgynghorol gan hynny'n gweithredu ar sail hollol wahanol i fformwla rheolaeth leol ysgolion (RhLY). Mae'n cyfrifo maintioli'r adnoddau staffio sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnig rhaglen neilltuol, neu fel dewis arall, faint o waith a ellir ei gyflawni gan gyflenwad penodol o staff. Yn wahanol i'r fformwla ynglŷn â rheolaeth leol yr ysgolion, nid yw wedi'i dylunio i ddyrannu cyllid terfynol rhwng gwahanol ardaloedd neu unedau gweithredol (clybiau a phrojectau yn achos y gwasnaeth ieuenctid).

O'r AAL1 i'r clybiau a'r projectau

413 Yn ddamcaniaethol fe fyddai modd nid yn unig i ddyrannu cyllidebau o'r canol i'r ardaloedd ond hefyd o'r ardaloedd i'r clybiau unigol. Gyda dull fel hwn o weithredu ni fyddai llawer o bwynt cyfeirio arian drwy'r ardal o gwbl oni bai:

- fod dyluniad a chynnwys y ddwy fformwla'n sylweddol wahanol;
- neu - fod rhan o'r gyllideb wedi'i phendafellu ar lefel ardal ar gyfer projectau arbennig;
- neu - fod dymuniad i atgyfnerthu swyddogaeth yr ardal am reswm arall.

414 Pa ffactorau a fyddai'n berthnasol ar gyfer dyrannu adnoddau i glybiau a phrojectau? Gallai'r meini prawf gynnwys:

- niferoedd y bobl ifanc sy'n defnyddio'r clwb neu'r project;
- pwyseddau ar gyfer y math o weithgaredd a'r math o berson ifanc (e.e. gallai ystodau oed arbennig neu grwpiau blaenoriaeth gael mwy o arian);
- y math o adeiladau (e.e. arwynebedd y llawr, y math o wresogi) i wneud yn iawn am gostau rhedeg uwch na'r cyfartaledd.

Mae'n debygol y byddai angen hefyd i'r fformwla gynnwys elfen o gyfandaliad i dalu rhai costau sefydlog (e.e. gweinyddu) na fyddant yn newid yn sylweddol yn ôl nifer y presenoldebau.

415 Byddai trefniant o'r fath yn enghraifft eglur o drosglwyddo egwyddorion dyrannu adnoddau RhLY i'r gwasanaeth ieuenctid. Byddai ganddo'r fantais o greu ffordd a ymddangosai'n wrthrychol a syml (er nad yn deg o anghenraid) o ariannu'r gwasanaeth. Byddai hefyd yn creu cymhellion gwirioneddol i'r clybiau wella'u ffigurau presenoldeb gan fod y berthynas rhwng ariannu a phresenoldeb yn amlwg dros ben.

416 Er gwaetha'r manteision hyn, mae nifer o ddadleuon wedi'u codi yn erbyn ariannu drwy fformwla. Os nad yw'r pwyseddau'n hydeiml dros ben, fe honnir, fe orfodir y clybiau i 'chwarae rhifau' ar y lefel leol, ar draul y gwaith o ansawdd well y mae'r gwasanaeth wedi bod yn symud tuag ato yn ystod y blynyddoedd diweddaraf. Fe honnir hefyd mai peth anodd yw dosbarthu a chofnodi cleientau mewn gwasanaeth gwirfoddol, a bod amrywiadau eang o ran rhifau presenoldeb o fewn a rhwng cyfnodau yn nodwedd gyffredin a dderbynnir mewn gwasanaeth a gâi'i gosbi'n drwm gan fformwla.

417 Fe dderbyniwn ni y ceir problemau ymarferol gwirioneddol wrth ddatblygu fformwla sy'n hydeiml i'r beirniadaethau hyn ond ni chredwn ei bod yn dasg amhosibl - er y byddai hynny'n achosi creu fformwla bur gymhleth. Er hynny, mae gan y gwasanaeth ieuenctid ddwy nodwedd bellach sy'n gwneud ariannu drwy fformwla'n amhriodol ar lefel y clwb. Y nodweddion hyn yw:

- y cyswllt isel iawn â thrwch y cleientau posibl;
- bychander yr uned weithredol.

418 Yn nodweddiadol, â chanran fach dros ben yn unig o'r bobl ifanc sy'n gymwys i'w ddefnyddio y bydd y gwasanaeth ieuenctid yn cysylltu. Mae hyn yn hollol wrthgyferbyhniol â'r system addysg lle byddir yn cyffwrdd ag yn agos i 100% o'r grŵp oedran sy'n gymwys. Mae hyn yn golygu fod y system addysg yn system gymharol gaeedig lle bydd cynnydd yn rhifau'r disgyblion yn y naill ysgol yn cyfateb i leihad yn y rhifau mewn ysgol arall. Mae'r fformwla ynglŷn â rheolaeth leol yr ysgolion yn cydnabod y llifeiriant hwn drwy symud adnoddau rhwng yr ysgolion â'i gilydd a chreu cymhellion i'r ysgolion ddenu disgyblion.

419 Yn y gwasanaeth ieuenctid, mae natur wirfoddol y presenoldeb a'r cyswllt isel iawn â thrwch y cleientau posibl yn golygu y gall y rhifau presenoldeb ar draws yr holl glybiau godi ar yr un pryd. Oni bai fod ymrwymiad penagored yn cael ei wneud i ariannu'r gwasanaeth - sy'n annhebygol - dim ond trwy lleihau'r dyraniad sylfaenol yn ôl y nifer o bobl ifanc sy'n mynychu'r clybiau y gallai'r fformwla gydnabod hynny. Mae hyn yn golygu y gallai'r clybiau a'r projectau gynyddu'u rhifau presenoldeb dderbyn unrhyw gynydd o ran ariannu (a chael lleihad o bosibl) oherwydd gweithredoedd clybiau a phrojectau eraill. Mewn geiriau eraill, mae'r system agored lle mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithredu yn gwneud ariannu'r naill glwb neu broject yn rhy ddibynnol ar ei berfformiand cymharol yn erbyn clybiau a phrojectau eraill.

420 Mae'r ail nodwedd yn ymwneud â bychander yr uned weithredol. Gall y clwb neu broject nodweddiadol feddu ar staff o un neu ddwy swydd amser-llawn yn unig a nifer o oriau rhan-amser. Mae hyn yn fitw fach pan gymherir â'r rhan fwyaf o ysgolion; yn wir, gall holl gyllid y gwasanaeth ieuenctid o dan AAL1 fod yn llai na chyllid ysgol uwchradd unigol. Mae'r gyffelybiaeth gyda rheolaeth leol ysgolion yn ddiffygiol, o ran ariannu o leiaf, gan fod ariannu clybiau ieuenctid drwy gyfrwng fformwla yn mynd yn debyg i ariannu ystafelloedd dosbarth unigol mewn ysgolion.

421 Mae bychander yr uned hefyd yn gwneud costau sefydlog clwb neu broject yn uchel iawn o'u cymharu â'i gostau ymylol (h.y. y costau o ymwneud ag un person ifanc ychwanegol). Dim ond trwy gynnwys cyfandaliad enfawr ar gyfer costau sefydlog clwb neu broject y gall y fformwla gyfadfer ar gyfer hynny. Mae hyn yn lleihau'r cymhellion a greir gan y fformwla i ddenu rhagor o bobl ifanc. Ar y llaw arall, os na warantir y costau sefydlog, ac os gwneir ariannu'n fwy dibynnol ar rifau presenoldeb, yna fe all amrywiadau bychain mewn rhifau gael effaith ddramatig. Er enghraifft, gallai clwb neu broject gael ei orfodi i gau petai'r rhifau'n disgyn ychydig a phetai'i gostau staffio amser-llawn heb eu talu. Mae'r fformwla felly'n troi'n offeryn di-fin dros ben wrth ymateb i amrywiadau cyfnod byr. Gan hynny ein casgliad yw gwrthod ariannu yn ôl fformwla ar lefel y clwb neu broject unigol.

Ariannu drwy gyfrwng contract

422 Nid dyrannu adnoddau yn ôl fformwla yw'r unig ddewis ar wahân i ddulliau hanesyddol/cynyddrannol. Un dewis sy'n cynyddu'n fwyfwy cyflym yng Nghymru yw ariannu rhaglen lle rhoddir grantiau (yn nodweddiadol i'r sector gwirfoddol) ar sail rhaglenni cwricwlaidd a gytunir a/neu allbynnau a ddiffinir. Mae hwn yn ffurf o ariannu drwy contract sy'n cynnig nifer o fuddiannau yn ein barn ni:

- fe all y broses gytundebu gael ei hailadrodd rhwng yr AAL1 a'r clybiau gan ymgyrraedd at raglenni a thargedau sy'n dderbyniol i bawb;
- fe fydd yr AAL1 - naill ai ar lefel yr awdurdod neu ar lefel ardal - yn dal gafael ar y gallu i weithredu'n hyblyg yn ei drafodaethau gyda phob clwb neu broject (yn wahanol i drefniant am ariannu drwy fformwla lle rhoddir anfri ar y system os gwneir gormod o newidiadau i'r cyllidebau a benderfynwyd gan y fformwla);
- gellir creu cymhellion gwirioneddol ar lefel y clybiau neu brojectau i gwrdd â thargedau, gan fod ariannu yn y dyfodol yn amlwg wedi'i gysylltu â pherfformiad heddiw;
- gellir trin y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol mewn modd cyfartal.

423 Gellir defnyddio'r dull hwn o weithredu i fireinio'r status quo drwy ddatblygu cytundebau a negydir rhwng AAL1 a chlybiau a phrojectau. Er hynny, mae hefyd yn gam tuag at y model mwy radicalaidd a awgrymwyd ym Mhennod 2 lle mae proses o nodi gofynion manwl gan yr AAL1 gyda chynigion gan yr holl bartion sydd â diddordeb. Byddai senario o'r fath yn arwain at wneud y gwahaniaethau presennol mewn trefniadau ariannu ar gyfer y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol yn llai amlwg. Mae'r moddau o gyflwyno a chynnwys y rhaglenni yn tyfu i fod yn newidynnau mwy ystyrlon.

424 Mae profiad o feysydd eraill o wasanaeth sy'n darostyngedig i cynigion cystadleuol yn awgrymu fod angen gwneud swm helaeth o waith ymlaen llaw cyn y dylid rhoi cychwyn i'r broses. Er enghraifft, rhaid datblygu gofynion manwl a phenodol a meini prawf eglur ar gyfer gwerthuso cynigion a chytundebau arolygu. Ceir costau ychwanegol ynglŷn ag arolygu cytundebau, ac mae gorfodi safonau unwaith y bydd y cytundebau wedi'u gosod wedi bod yn broblem arbennig mewn amryw feysydd gwasanaethu. Bydd contractau'n gweithredu gan amlaf dros dair blynedd o leiaf, yn ddarostyngedig i berfformiad boddhaol.

425 Yn ein barn ni, mae'r dull mwy radicalaidd hwn o weithredu yn debyg o fod yn llwyddiannus yn unig mewn AALL lle mae dull o ariannu contractau a negydir wedi'i hen sefydlu ac yn cael cefnogaeth y clybiau unigol a'r projectau. Hyd yn oed wedyn, fe all ddigwydd mai rhannau'n unig o'r gwasanaeth sy'n addas ar gyfer cynigion agored (e.e. efallai nad peth synhwyrol fydd buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol heb ymrwymiad dros gyfnod hir). Ble bynnag y dechreuir y dull hwn o weithredu, fe fydd iddo oblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer y staff yn y sector gwirfoddol ac (yn enwedig) yn y sector a gynhelir. Mae'n bosibl y bydd angen trefniadau amddiffynnol i warchod y staff a'r rhaglenni yn ystod y newid o'r naill ddarparwr i'r llall petai contract yn newid dwylo.

Dirprwyo

426 Y brif broses arall a drafodir yn y bennod hon yw dirprwyo. Yr egwyddor reolaethol sylfaenol yw y dylid gofalu symud gwneud penderfyniadau i lawr i'r lefel synhwyrol isaf o fewn y system gan y byddai'r penderfyniadau mwyaf gwybodus ac effeithiol yn cael eu cymryd, yn ôl pob tebyg, gan y rhai sy'n ymwneud fwyaf â nhw. Yn nhermau'r gwasanaeth ieuenctid y tair haenen bosibl o ran dirprwyo yw:

- y gwasanaeth fel cyfangorff;
- strwythur ardal;
- y clwb neu broject.

427 Yng Nghymru mae angen i'r drafodaeth roi ystyriaeth benodol i ddwy elfen bellach, sef y bartneriaeth gyda'r sector gwirfoddol ac integreiddio gydag addysg gymunedol. Yn hytrach na'u hystyried ar wahân i'w gilydd fe'u cynhwyswn yn ein trafodaeth o bob haenen ddirprwyo.

Dirprwyo i'r gwasanaeth cyfan

428 Fe ddadleuwyd ym Mhennod 3 o blaid cyd-fforwm sirol a fyddai'n gosod y fframwaith lefel uchel y byddid yn datblygu'r gwahanol gyfraniadau o'r tu mewn iddo. Mae ar bob darparwr gwaith ieuenctid (y gwasanaeth a gynhelir a chyrrff gwirfoddol) angen ei fecanwaith ei hun ar gyfer gwneud penderfyniadau. Ein cred ni yw y dylai'r gwasanaeth a gynhelir gael ymreolaeth sylweddol i benderfynu sut y dylai gyflawni'i ddarpariaeth sirol o fewn y fframwaith a gytunwyd gan y cyd-fforwm sirol. Dylai feddu ar bwerau dargyfeirio, er enghraifft, sy'n debyg i'r rhai a feddir gan ysgolion a cholegau. Ar gyfer rhai o'r modelau mwy radicalaidd fe fyddai'r lefel hon o ymreolaeth yn un sylweddol.

429 Byddai'r dull o gynllunio ar ddwy haenen, sef:

- cynllunio ar lefel sir; a
- chynllunio gweithredol ar lefel ardal

yn symlach i'w weithredu mewn sefyllfa lle gwelid y gwasanaeth ieuenctid a gynhelid fel gwasanaeth ar wahân. Mewn awdurdodau lle cyfunir gwaith ieuenctid ag addysg gymunedol, mwy dewisol fyddai cynllunio'r ddarpariaeth gymunedol gyfan gan ddefnyddio'r dull o gynllunio ar ddwy haenen. Er hynny, pe bai addysg gymunedol wedi'i chynllunio yn ôl ffordd fwy traddodiadol llywodraeth leol byddai'n hanfodol llunio cysylltiadau rhwng y ddau dim cynllunio, gan gynnwys rhyw gymaint o gyd-aelodaeth.

Dirprwyo i ardaloedd

430 Ein barn ni yw y bydd lefel yr ardal neu'r gymuned yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant cyflwyno'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Byddai'r amodau a'r amcanion cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth wedi'u gosod gan yr AALl yn sgil cyngor oddi wrth y cyd-fforwm sirol. O fewn y fframwaith hwn, fe fyddai angen i'r ardaloedd ddatblygu cynlluniau i'w gweithredu. Er mwyn i'r ardal

weithredu yn y modd a fwriedid fe ddylai gael cyllid wedi'i ddirprwyo o'r "canol" gyda hyblygrwydd sylweddol ar gyfer datblygu gwaith ieuenctid yn y modd sy'n taro orau i'r anghenion lleol. Nid yw ymreolaeth o'r fath yn bychanu pwysigrwydd y "canol" ar gyfer datblygu polisi, darparu cynhaliaeth ddigonol i reolwyr lleol ac arolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth. Efallai y byddai angen cryfhau'r systemau cynnal fel a ddigwyddodd ar gyfer penaethiaid o ganlyniad i'r system reoli lleol, ac y byddid yn cydbwysu hyn â lleihad mewn cyfrifoldeb am gyflawni'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

431 I bwy y dylid dirprwyo cyllid yr ardal? Ein barn ni yw dylid gwneud hynny i aelod proffesiynol o staff yr AALL ar lefel ardal i fodloni gofynion deddfwriaethol. Swydd fel Rheolwr Ieuenctid Ardal (neu Reolwr Addysg Gymunedol) sydd gennym ni mewn golwg. Byddai hyn ar lefel uchel gyda'r prif gyfrifoldeb dros gyflwyno'r gwasanaeth (gan gynnwys cynllunio ar y cyd gyda chyrff gwirfoddol). Dylai ateb i bwyllgor ardal gydag aelodaeth o'r sector a gynhelir, cyrff gwirfoddol sy'n weithgar yn yr ardal, pobl ifanc, cyflogwyr, ysgolion a cholegau; fe fyddai aelodaeth pwyllgor ardal addysg gymunedol gyfunol yn amlwg ychydig yn wahanol.

432 Er mai gwaith pob pwyllgor ardal fyddai penderfynu ar y dull gorau o weithredu wrth drefnu'i bethau fe awgrymwn ni y gall mawbwysiadu technegau cynllunio busnes fod yn ddefnyddiol iddo. Mae gwreiddiau'r dull hwn o weithredu yn y sector gwirfoddol ond fe wneir defnydd da ohono fwyfwy yn y sector cyhoeddus. Elfennau cyffredin mewn cynllunio busnes y gellid eu defnyddio ar gyfer y gwasanaeth ieuentid fyddai:

- penderfynu nodau ac amcanion lleol yng ngoleuni'r cynllun Sirol;
- dadansoddi'r amgylchedd lleol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac unrhyw newid sy'n digwydd (e.e. o ran demograffeg, deddfwriaeth, dymuniadau pobl ifanc);
- asesu cryfderau a gwendidau'r gwasanaeth;
- asesu perfformiad y ddarpariaeth bresennol hyd yma;
- amcangyfrif yr adnoddau (dynol ac ariannol) sydd ar gael o ahanol ffynonellau;

- penderfynu ar y cynlluniau lleol ar gyfer y gwasanaeth yng ngoleuni'r uchod a nodi'r gweithrediadau sydd i'w cyflawni (a phwy sy'n gwneud beth, ac erbyn pa bryd), gan gynnwys yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol;
- penderfynu'r canlyniadau sy'n ofynnol, y targedau sydd i'w gosod a'r moddau y byddir yn arolygu ac yn gwerthuso'r cynnydd.

433 Bydd y cyfryw gynllunio gweithredol yn cydategu'r cynllunio strategol ar lefel Sirol a ddisgrifir ym Mhennod 3 ac yn cynyddu'r wybodaeth ynddo; yn wir nid oes rheswm pam na ddylid defnyddio'r un technegau cynllunio ar y lefel Sirol. Felly mae'n debyg y cychwynnid ymchwil marchnata ac asesu anghenion (er enghraifft drwy gyfrwng arolygon o farnau pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid) ar lefel ardal ond fe fydd y rheiny'n gymorth ar gyfer cynllunio ar y lefel Sirol. Anodd yw rhannu'n fanwl rhwng pwerau'r pwyllgorau ardal a phwerau'r fformwla sirol o ran gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn fater i'w drafod ym mhob AALl ac fe fydd yn dibynnu ar nodweddion a maintioli'r ardaloedd lleol, yn ogystal ag ar draddodiadau lleol gwahanol. Er hynny fe ragwelwn ni y byddai gradd uchel o ymreolaeth yn datblygu dros gyfnod o amser yn y rhan fwyaf o AALl.

434 Yr ydym eisoes wedi dangos ein bod o blaid dyrannu'r cyllid ardal ar sail rhyw fformwla neu'i gilydd. Gellid dyrannu adnoddau i glybiau a phrojectau yn yr ardal mewn amryw ffyrdd ond ein casgliad yn gynharach yn y bennod hon oedd y gallai trefniant ariannu drwy gontract fod yn fwy derbyniol ar sail cynllun lleol a gytunwyd drwy'r dull a amlinellwyd uchod. Fe all y mecanwaith hwn weithredu i'r un graddau ynglŷn â chlybiau yn y sector a gynhelir ac yn y sector gwirfoddol. Gan hynny fe geir cymhelliad clir ac ymarferol i'r sector gwirfoddol gyfrannu'n sylweddol at gynllunio gweithredol ardal.

Dirprwyo ar lefel clybiau a phrojectau

435 Ceir amrywiaeth mawr yn y graddau o wneud penderfyniadau a ganiatêir i glybiau a phrojectau o fewn a rhwng y gwahanol wasanaethau ieuenctid, a'r prif wahaniaeth yw rhwng y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir. Yn y sector gwirfoddol, fe fydd pwyllgorau rheoli'r clybiau'n mwynhau rhyddid

sylweddol i benodi staff a lleoli adnoddau. Mae hyn yn digwydd am fod cyfran uchel o'u hincwm yn dod o ffynonellau ar wahân i'r AALl (ond yn fynych fe glustnodir y cymorthdaliadau oddi wrth AALl ac fe fydd hynny'n cyfyngu ar eu rhyddid). Mewn clybiau a phrojectau a gynhelir, mae gan y pwyllgorau rheoli sy'n bodoli dipyn llai o ryddid i wneud penderfyniadau cyllidol, ac eithrio lle bu gwasgu arnyn nhw i greu incwm.

436 Yn gyffredinol, ein barn ni yw y dylid lleihau i'r eithaf y gwahaniaeth rhwng darpariaeth yr awdurdodau a'r ddarpariaeth wirfoddol. Mae hyn yn golygu rhoi mwy o ryddid i glybiau a gynhelir redeg eu materion eu hunain. Er hynny nid ydym o'r farn fod hyn yn gofyn am ddirprwyo adnoddau ar lefel uchel i lefel y clwb/project. Y rheswm am hynny yw fod y clwb/project nodweddiadol yn rhy fach i brofi gradd helaeth o ryddid yn sgîl dirprwyo llawn, o gofio fod cynifer o'i gostau'n rhai sefydlog. Felly fe allai'r cynnydd mewn gweinyddu ar y lefel yma orbwyso'r budd yng ngolwg y gweithwyr ieuenctid a'r pwyllgorau rheoli ac achosi problemau difrifol ynglŷn â chynnal ymroddiad.

437 Ateb mwy boddhaol, yn ein barn ni, yw caniatáu i glybiau a phrojectau a gynhelir ddargyfeirio'u hadnoddau rhwng penawdau cyllidol ar wahân i staffio amser-llawn. Felly fe ellid symud adnoddau rhwng penawdau cyllidol oriau staff rhan-amser (proffesiynol a gweinyddol), cyfarpar a mân atgyweiriadau. Byddai modd caniatáu cario adnoddau ymlaen o'r naill flwyddyn ariannol i'r nesaf a defnyddio incwm a greir yn fewnol at unrhyw ddiben ar wahân i benodi staff amser-llawn (byddai rhaid cael caniatâd yr AALl ar gyfer hynny). Byddai'r newidiadau hyn yn rhoi rhyddid bach ond sylweddol i'r clybiau ac yn creu cymhellion mwy ar gyfer creu incwm.

438 Fe ellid caniatáu'r un rhyddid i glybiau yn y sector gwirfoddol a phrojectau sy'n derbyn arian gan yr AALl ar gyfer eitemau ar wahân i staffio amser-llawn, gan greu cydraddoldeb rhwng y ddau sector drwy hynny. Os oes system o ariannu trwy contract yn bod, fe fyddid yn arolygu'r defnydd a wneir o'r arian drwy'r contract rhwng yr awdurdod a'r clwb unigol neu broject. Byddai ariannu yn y dyfodol yn dibynnu ar berfformiand boddhaol yn erbyn y targedau.

Casgliadau

439 Yn y bennod hon yr ydym wedi dadlau:

- fod angen mwy o gydlyniant rhwng dyraniadau o grantiau i gyrff gwirfoddol ar lefelau cenedlaethol a sirol;
- y dylid dyrannu cyllidau ardal drwy ddefnyddio fformwlâu yn seiliedig ar anghenion;
- y dylid negydu cyllidau clybiau ar sail contract ar lefel ardal;
- y dylai'r gwasanaeth ieuenctid sirol feddu ar bwerau a ddirprwywyd mor helaeth â phwerau ysgolion o dan Reolaeth Leol Ysgolion;
- y gellir cymhwyso'r strategaethau hyn i wasanaeth addysg gymunedol gyfunol ond anodd yw eu gweithredu oni bai fod cydrannau eraill yn mabwysiadu'r un model.

5 AROLYGU A GWERTHUSO

Cyflwyniad

501 Fe geir pwyslais cynyddol ar arolygu a gwerthuso a sicrhau ansawdd mewn awdurodadau lleol ar draws holl feysydd y gwasanaethau. O fewn y gwasanaeth addysg fe deimlir y pwysu ar ei lymaf yn sectorau'r ysgolion a'r colegau ond mae'n dechrau effeithio ar wasanaethau eraill, gan gynnwys y gwasanaeth ieuencid.

502 Yn y bôn mae ailarchwilio sylfaenol yn digwydd ynglŷn â'r ffyrdd y gellir sicrhau'r AAL1 fod y gwasanaethau a ddarparir ganddynt (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o ansawdd uchel ac yn cael eu cyflwyno mewn modd effeithlon ac effeithiol. Hefyd fe geir mwy o bwyslais ar allbynnau (ac ar werth am arian) yn hytrach nag ar fewnbynnau fel modd i fesur ansawdd, gan droi'r gogwydd blaenorol o chwith. Yn y dyfodol, bydd angen i'r gwasanaethau arddangos yn fwy eglur effeithiolrwydd ac atebolrwydd eu rheolaeth a'r canlyniadau a gafwyd er mwyn bod yn siŵr o gynnal sail ddiogel o adnoddau.

503 Ar gyfer y gwasanaeth ieuencid mae'r canolbwyntio sylw hwn yn her o ddifrif gan fod y gwasanaeth yn draddodiadol wedi'i chael yn anodd arddangos llwyddiannau mewn modd diamheuol. Yn yr adran hon fe archwiliwn rai o'r ffyrdd y byddir yn arolygu a gwerthuso'r gwasanaeth ar hyn o bryd a sut y gellid gwneud hynny yn y dyfodol. Yna fe fyddwn yn ystyried y defnydd a wneir o ddangosyddion perfformiad. Mae'r materion hyn yn gyffredin ar draws y gwasanaeth ieuencid yng Nghymru a Lloegr ac ni welsom unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng Cymru a'n gwaith maes yn gynharach yn Lloegr. Gan hynny, mae'r dadleuon yn yr adran hon i bob pwrpas yr un rhai ag a geir yn ein hastudiaeth yn Lloegr.

Yr arferion cyfredol

504 Er fod amryw arferion arolygu a gwerthuso ar waith yn y gwahanol AAL1, fe ellir sylwi ar nifer o nodweddion cyffredinol:

- fe geir pwyslais ar weithdrefniadau ar gyfer arolygu staff fel y dull allweddol o arolygu clybiau a phrojectau;
- fe ystyrir mai cyfrifoldeb y rheolwyr uchaf yn bennaf yn hytrach na staff ar bob lefel yw arolygu a gwerthuso (h.y. mae'n fodel "o'r pen i lawr");
- er y cesglir gwybodaeth ynglŷn ag arolygu'n gyson mae weithiau o ansawdd wael ac anfynych y bydd yn gynhwysfawr;
- mae arolygu o fewn y sector a gynhelir yn gyffredinol wedi'i ddatblygu'n bellach nag yn y sector gwirfoddol.

505 Mae'r math hwn o arfer yn annhebygol o fod yn ddigon cryf i gynnig sail gadarn ar gyfer y gwasanaeth i'r dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir os bydd cynnydd yn y dirprwyo'n arwain at fwy o ryddid gweithredu ar lefelau ardal a chlwb/project.

Arferion y Dyfodol

506 Ein barn ni yw y dylai arolygu a gwerthuso'r gwasanaeth yn y dyfodol amlygu'r nodweddion dilynol:

- symud tuag at ymwerthuso ar lefel y clwb/project (a'r ardal) fel y conglfaen ar gyfer sicrhau ansawdd (h.y. proses "codi o'r gwaelod");
- datblygu sail fwy cynhwysfawr o wybodaeth am gleientau'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth a gynigir;
- gwahaniaethu rhwng arolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth a nodi gwerth y staff (e.e. fe all y staff fod yn gweithio'n gydwybodol ond ni fydd yr allbwn yn foddhaol. Byddai hynny'n codi cwestiynau ynglŷn â'r strategaethau oedd ar waith);
- swyddogaeth fwy sylweddol ar gyfer rheolwyr fel ymgynghorwyr a hyrwyddwyr ar gyfer prosesau ymwerthuso;

- dulliau cydwedd â'i gilydd ar draws y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir;
- datblygu a defnyddio dangosyddion perfformiad ar bob lefel yn y gwasanaeth.

507 Y newid pennaf o ran pwyslais fyddai creu hinsawdd lle byddai arolygu a gwerthuso yn dod yn rhan hanfodol o bob clwb ac o bob project. Bydd hyn yn cymryd amser ac fe fydd amryw reolwyr lleol ag angen cynhaliaeth wrth ddatblygu prosesau mewnol i osod targedau a'u harolygu'n gyson. Fe ddylai'r pwyslais fod bob amser ar y budd a fyddai'n deillio o'r broses i'r clybiau eu hunain, o ran rheoli adnoddau'n well er mwyn bodloni'r nodau a'r amcanion a osodwyd gan y clybiau ar eu cyfer eu hunain (neu a gytunwyd ar y cyd gyda'r AAL1). Mae hyn yr un mor wir am weithgarwch y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir.

508 O fewn y rhan honno o'u gwaith sy'n ymwneud â'r broses o ymwerthuso, mae swyddogaeth rheolwyr y gwasanaeth ieuenctid yn y sector a gynhelir yn uwch na lefel y clwb/project yn dod yn rhannol yn waith arolygu (ar ran yr AAL1) ac yn rhannol yn waith cynghori (i gynnal a hyrwyddo prosesau o fewn clybiau a phrojectau). Ar lefelau isaf rheoli, fe fydd y gogwydd tuag at y swydd ymgynghorol, ac ar y lefel uchaf fe fydd yn gogwyddo tuag arolygu. Bydd hyn yn arwain at newid mewn rhai swyddi rheoli yn y canol a fydd yn fwy boddhaol i rai o ddeiliaid y swyddi nag i rai eraill. Mae'n sicr yn cadarnhau'r angen am gynhaliaeth a chyngor o'r canol i gynorthwyo'r newid ac am hyfforddiant mewn-swydd.

509 Bydd rheolwyr ar bob lefel yn sylwi fod mwy o bwyslais ar reoli amryw wasanaethau lleol yn hytrach nag ar gyflawni gwasanaethau sydd wedi'u penderfynu'n ganolog. Bydd hyn yn arbennig o wir os bydd partneriaeth effeithiol gyda'r sector gwirfoddol yn arwain at gynnydd yn y lefelau o weithgarwch gwirfoddol a'r gefnogaeth iddo. Yna fe fyddai staff cyflogedig yn dod yn hyrwyddwyr ac yn drefnwyr i eraill, yn hytrach na ddarparwyr uniongyrchol wyneb-yn-wyneb eu hunain.

Dangosyddion perfformiad

510 Mae datblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer gwahanol sectorau addysg yn flaenoriaeth uchel ar hyn o bryd. Mae sylw'n cael ei roi i'r gwasanaeth ieuenctid o ganlyniad i benderfyniad Cynhadledd Genedlaethol y Gweinidogion ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid i danlinellu dangosyddion perfformiad fel mater allweddol. Fe welsom fod amryw AALl yng Nghymru wedi dechrau ystyried y mater hwn (e.e. drwy sefydlu gweithgorau) ond mai newydd gychwyn oedd y gwaith. Mae gweddill yr adran hon gan hynny yn cynnig dull posibl o weithredu ac o fwrw ymlaen.

511 Gall fod amryw ddefnyddiau pwysig i ddangosyddion perfformiad. Er enghraifft, gellir

- cynorthwyo rheolwyr lleol ynglŷn ag ymwerthuso;
- cynnig gwybodaeth i gleientau a darpar-gleientau;
- arddangos eu cyfrifoldeb i'r AALl ac i gyrff allanol.

512 Yn sector yr ysgolion, y nod yw datblygu amrediad o ddangosyddion gan yr ysgolion ac ar eu cyfer, gan ymgynghori â'u HAALl. Allan o hyn y gobaith yw y bydd craidd o ddangosyddion cyffredinol yn ymddangos ar draws yr ysgolion y bydd yr AALl yn gallu'u defnyddio i gynorthwyo'i broses arolygu'i hun. Ar ryw adeg yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd y Swyddfa Gymreig a'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth yn mynnu craidd cyffredinol gyda llai o ddangosyddion i'w defnyddio gan yr holl AALl yng Nghymru a Lloegr. O ganlyniad fe greir hierarchaeth o ddangosyddion yn gwasanaethu cyrff ar lefelau gwahanol ond i gyd wedi'u hadeiladu ar sylfaen o ymwerthuso.

513 Barnwn ni fod dull tebyg o weithredu'n briodol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid gan nad yw'n seiliedig ar arfer benodol ond ar ymwerthuso. Y dasg gyntaf fydd creu cytundeb o fewn y gwasanaeth ieuenctid ynglŷn â'r hyn sy'n ddangosyddion neu ddim. Fe ddaethom ar draws amwysedd ymhlith rhai rheolwyr wrth ddefnyddio termau fel dangosyddion perfformiad, mesuriadau perfformiad, targedau ac amcanion. Nid mater o semanteg yw hyn gan ei fod yn effeithio ar ddisgwyliadau sydd gan reolwyr ynglŷn â dangosyddion.

514 Yr ail dasg fydd argyhoeddi rheolwyr ar bob lefel am yr angen am ddangosyddion ac arddangos eu defnyddioldeb ar y lefel leol. Yna fe ddylid rhoi cyfle i'r rheolwyr arbrofi gyda'r dangosyddion o fewn fframwaith a gymeradwyir gan yr AALl. Byddai cyngor a chefnogaeth oddi wrth y Swyddfa Gymreig, AEM a'r asiantaeth ieuentid a arfaethir dros Gymru yn werthfawr yn yr un modd ag y'u rhoddwyd i ysgolion (e.e. cylchredwyd rhestrï o ddangosyddion posibl i'r ysgolion a'r AALl o ganlyniad i astudiaeth ragbrofol gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth). Gallai project arbrofol byr ar draws nifer o AALl yng Nghymru gynorthwyo'r gwasanaeth ieuentid i adnabod, datblygu a defnyddio dangosyddion perfformiad priodol. Gallai fod o fudd ar draws AALl yng Nghymru a Lloegr hefyd, er bod posibilrwydd datganiad cwricwlwm ar wahân i'r gwasanaeth ieuentid yng Nghymru yn awgrymu rhai dangosyddion ychwanegol a gwahanol i Gymru. Ond ni ddylid defnyddio canlyniadau rhagbrawf o'r fath yn rhy gadarn.

515 Wrth ffurfioli setiau o ddangosyddion, fe ddylid annog rheolwyr, yn ein barn ni, i feddwl yn nhermau'r dosbarthiad "mewnbwn", "proses", ac "allbwn" a argymhellir i'r ysgolion ac a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth y tu allan i addysg. Fe ystyriwn bob un yn ei dro.

Dangosyddion Mewnbwn

516 Mae dangosyddion mewnbwn yn ymwneud yn bennaf â'r adnoddau materol a dynol sydd ar gael i glybiau a phrojectau, a'r ddarbodaeth a'r effeithlonrwydd y byddir yn eu defnyddio. Y prif adnoddau yw'r staff, yr adeiladau a'r offer. Mewn amryw ardaloedd peth cymharol hawdd yw meintoli'r rhain yn gymarebau ariannol (e.e. fel cyfanswm y gost yn ôl y pen ar gyfer pob person ifanc, costau staff yn ôl y pen ar gyfer pob person ifanc, ac yn y blaen.) Fe all y cymarebau hyn fod yn gamarweiniol, fodd bynnag, oherwydd y defnydd eang a wneir o staff digyflog yn y sector gwirfoddol ac yn y sector a gynhelir. Gan hynny mae'n bosibl y bydd cymarebau ffisegol (e.e. y nifer o sesiynau staff yr wythnos) yn fwy perthnasol wrth drafod mewnbynnau staff.

517 Gellir rhoi mwy o fin i ddangosyddion o ran asesu ansawdd drwy raddoli mewnbynnau adnoddau mewn rhyw fodd. Er enghraifft, gellir asesu adeiladau yn nhermau'u safon o gynhaliath a'u haddasrwydd ar gyfer gwahanol weithgareddau.

518 Er mai dangosyddion mewnbwn yw'r rhai hawsaf i'w ffurfioli ac er eu bod yn gyffredin ar draws amryw feysydd gwasanaeth, y rhain yw'r lleiaf defnyddiol o ran asesu perfformiad. Y rheswm am hyn yw mai ychydig a ddywedir am y broses ddysgu y defnyddir mewnbynnau ar ei chyfer ac ni ddywedir dim am ganlyniadau (neu allbynnau)'r broses.

Dangosyddion proses

519 Mae dangosyddion proses yn ymwneud â'r ffordd y cyfunir adnoddau o fewn clybiau a phrojectau i greu profiad o ddysgu ar gyfer pobl ifanc. Mae'r cwestiynau allweddol yma'n ymwneud ag ansawdd y profiad hwnnw. Gan hynny fe fydd y dangosyddion yn canolbwyntio ar faterion cwricwlwm fel ehangder y gweithgareddau sy'n agored i bobl ifanc a nodweddion y gweithgareddau (o ran maint grŵp, parhad o ran amser, ac yn y blaen). Gallai enghreifftiau gynnwys faint o waith un-ac-un a gwaith gyda grwpiau bach a wneir gyda phobl ifanc, a faint o waith ar faterion o flaenoriaeth benodol yn hytrach nag ar ddarpariaeth fwy cyffredinol. O gofio natur anffurfiol a chyfranogol addysg gymdeithasol, fe fydd y dangosyddion hefyd yn ceisio mesur lefel y cydadweithio fydd yn digwydd rhwng pobl ifanc o fewn gweithgareddau.

Dangosyddion allbwn

520 Dangosyddion allbwn yw'r dangosyddion pwysicaf ar gyfer unrhyw wasanaeth gan eu bod yn cynnig tystiolaeth ynglŷn â llwyddiannau ac oherwydd hynny'n dangos pa mor effeithiol mewn gwirionedd y mae'r adnoddau wedi'u defnyddio. Fel yn achos ysgolion, y rhain fydd y maes mwyaf anodd i gael cydsyniad ynglŷn â'r gwasanaeth ieuenctid ynddo.

521 Yn ein barn ni, presenoldeb gan bobl ifanc yw'r dangosydd allbwn mwyaf sylfaenol. Mewn ysgol fe ellid ystyried hyn yn ddangosydd mewnbwn ond, yn y gwasanaeth ieuenctid, mae natur cwbl wirfoddol presenoldeb yn golygu fod y gallu i ddenu a chadw pobl ifanc dros gyfnod yn fesur o lwyddiant neu o allbwn. Bydd y dangosyddion allbwn pwysicaf, fodd bynnag, yn ymwneud â'r datblygiad cymdeithasol a phersonol y mae pobl ifanc wedi'i fwynhau o ganlyniad i'w cyswllt â'r gwasanaeth ieuenctid. Disgrifir hyn ar brydiau fel y "gwerth a ychwanegir" gan y broses ddysgu.

522 Un o broblemau'r gwasanaeth ieuencid yw'r raddfa amser y mae angen mesur newidiadau drosto o bosibl cyn iddo fod yn weladwy. Gall y gwahaniaeth rhwng allbynnau canolradd a therfynol (neu ganlyniadau) fod yn ddefnyddiol yma. Ac felly, dangosydd allbwn canolradd o lwyddiant i sicrhau ymddygiad mwy cyfrifol ymhlith pobl ifanc fydd llai o graffiti y tu fewn i adeiladau clwb o bosibl. Efallai y bydd clybiau a phrojectau'n ei chael yn haws nodi amrediad o ddangosyddion allbwn canolradd (e.e. llwyddiannau dros gyfnod byr fel nifer o bobl ifanc yn cwblhau amryw weithgareddau yn y clwb yn llwyddiannus, lefelau uwch o gyfrannu i gyrff cynrychioliadol, ac yn y blaen) na dangosyddion allbwn terfynol (e.e. lefelau uwch o gyfrannu at brosesau democrataidd ehangach, ac yn y blaen amcanion cyfnod hir mwy cyffredinol fel llai o gyfeirio at wasanaethau cymdeithasol, lefelau is o fân droseddau).

523 Mae'n debyg y bydd rhai AALl a'r gyrff gwirfoddol yn dymuno datblygu eu dangosyddion allbwn arbennig eu hunain. Mae Urdd Gobaith Cymru, er enghraifft, am feintoli datblygiad a lledaeniad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig o ganlyniad i'w gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddio dangosyddion

524 Dylid annog rheolwyr y gwasanaeth ieuencid i ddefnyddio'r nifer leiaf o ddangosyddion sy'n gyson â'u triniaeth o'u prif amcanion. I'r gwrthwyneb, yn ein barn ni mae llawer o ysgolion yn ceisio defnyddio gormod a ddangosyddion ac fe all casglu a dadansoddi gwybodaeth fynd ag amser a thanseilio'r ymarfer. Hefyd ceir tuedd ar brydiau (a arddangosir gan rai o'r enghreifftiau uchod) i'r dangosyddion asesu'r hyn sy'n hawdd i'w fesur yn hytrach na'r hyn sydd wir yn bwysig. Disgyblaeth werthfawr gan hynny yw diffinio un dangosydd ar gyfer pob amcan a nodir. Effaith hyn yw lleihau'r perygl bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn asesu rhan fach yn unig o'r gwaith a gyflawnir (e.e. gweithio gyda chleientau sydd mewn perygl). Dylid cymysgu deunydd meintiol gydag asesiadau ansoddol (h.y. gwybodaeth galed a meddal) er mwyn cael y darluniau gorau o berfformiad.

Casgliadau

525 Nid yw arolygu a gwerthuso gwaith ieuenctid ar hyn o bryd yn ddigon grymus. Mae angen model llymach yn seiliedig ar ymwerthuso ar lefelau clwb ac ardal. Bydd angen cefnogaeth ar glybiau a phrojectau yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol ar gyfer symud tuag at y model hwn.

526 Fe ddylai rheolwyr y gwasanaeth ieuenctid fod yn barod i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau o ran arolygu a chynghori. Bydd hyn yn arwain at newid mewn rhai swyddi ac fe fydd angen cynnal hynny trwy gyfrwng cyngor o'r canol a hyfforddiant mewn-swydd.

527 Er fod eu cyfyngiadau'n hysbys, fe all dangosyddion gyflawni swyddogaeth ddefnyddiol o fewn y gwasanaeth ieuenctid ar bob gwastad. Yr un mor bwysig â'r dystiolaeth a ddadlennir yw'r broses a achosir ganddyn nhw o ganolbwyntio ar nodau ac amcanion ac allbynnau (neu lwyddiannau) yn ogystal â mewbynnau adnoddau. Mae arbrofion yn sector yr ysgolion yn cynnig patrymau cyfochrog defnyddiol ac fe ddylid trefnu project rhagbrofol byr ar draws nifer o awdurdodau yn Lloegr a Chymru i ysgogi a lledaenu profiadau o ran darganfod, datblygu a defnyddio dangosyddion ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid.

Y Pwyllgor Llywio a alwyd ynghyd gan y Swyddfa Gymreig

Jim Rooney	Partneriaeth Ieuenctid Cymru
Alwyn Williams	Urdd Gobaith Cymru
Doug Jones	Cyngor Sir Morgannwg Ganol
Sandra Skinner	Cynllun Dyfarniadau Dug Caeredin
Alan Higgins	AEM
Russell Dobbins	Y Swyddfa Gymreig

Tim Astudio Coopers a Lybrand Deloitte

Quentin Thompson
Mike Nichol
Andrew Watson
John Lakin

Y Cyrff a roddodd wybodaeth a sylwadau

Y Cyngorau Sir a welwyd

Clwyd

Gwynedd

De Morgannwg

Y Cyngorau Sir a wnaeth gyfraniadau ysgrifenedig

Dyfed

Gwent

Morgannwg Ganol

Powys

Gorllewin Morgannwg

Y Cyrff eraill a wnaeth gyfraniadau ysgrifenedig

Bwrdd Cenhadaeth - Canolfan yr Eglwys yng Nghymru

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Gymru

Urdd Sant Ioan - Priordy Cymru

Urdd Gobaith Cymru

Clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru

Fforwm Ieuenctid Cymru

Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru

Cymdeithas Geidiau Cymru

Cyngor Sgowntiaid Cymru

Model Posibl i AALl Ariannu System Osod ar gyfer Grwpiau Ieuenctid

- 1 Bydd yr AALl yn penderfynu'r gost o ddefnyddio un ystafell mewn ysgol o'i gosod, dyweder, am noson o dair awr ar ddiwrnod gwaith. Bydd yn dewis ysgol nodweddiadol ac yn tybied y bydd y gofalydd yn cael ei dalu ar gyfradd goramser ac y bydd y gwres ymlaen, yn bur debyg drwy ran helaeth o'r ysgol, yn ystod y tymor gwresogi. Mewn geiriau eraill fe fydd yn cyfrifo'r gost fel y byddai Pennaeth yr ysgol yn ei chyfrifo, yn realistig ond heb fod yn gybyddlyd yn ei ragdybiaethau. Y swm hwn fydd uned safonol yr AALl.
- 2 Bydd yr AALl yn cyfrif y nifer o weithiau y gosododd adeiladau'r ysgol am ddim i grwpiau ieuenctid gwirfoddol, ynghyd â'r nifer o droeon tebyg i grwpiau ieuenctid yr awdurdod, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bydd yr AALl yn trosi'r troeon hyn yn sesiynau ac yna'n unedau safonol er mwyn penderfynu'r gost syniannol gyfan.
- 3 Bydd yr AALl yn tynnu'r gost "syniannol" gyfan o Gyllideb Gyffredinol yr Ysgolion ac yn dyrannu'r unedau yn y nifer priodol er mwyn caniatáu i bob grŵp ieuenctid barhau â'r un nifer o weithiau o ddefnyddio'r ysgol ag yn y flwyddyn flaenorol.
- 4 Os bydd grŵp ieuenctid yn dymuno defnyddio'r un ysgol ag o'r blaen, ar yr un nosweithiau ac am yr un nifer o droeon, y cyfan y mae angen iddo ei wneud yw cytuno ar hyn gyda'r ysgol. Yna fe fydd yr AALl yn dyrannu'r swm priodol sy'n ganlyniad i'r nifer o unedau safonol a gyfrifwyd i'r ysgol fel ad-daliad o'r costau syniannol o'u defnyddio.
- 5 Os bydd y grŵp ieuenctid yn dymuno mynd i ysgol arall fe all negydu hyn ac fe fydd y Pennaeth fydd yn eu derbyn yn gwybod na all yr ysgol gollf arian gan y bydd yr uned safonol yn talu holl gostau'r gosod, hyd yn oed os na cheir unrhyw osodiadau eraill y noson honno.
- 6 Gan hynny mae gan ysgolion sydd â gosodiadau eraill eisoes, neu'r potensial ar gyfer gosodiadau eraill, gymhelliad i 'gasglu' gosodiadau oblegid, yn y modd hwn fe fyddant yn codi arian ar gyfer eu hysgol neu'n rhoi cymhorthdal i'w defnydd eu hunain o rannau eraill o'r adeiladau ar yr un noson.
- 7 Y canlyniad yw rhyddhau'r system, twf agwedd newydd gan yr ysgolion tuag at y grwpiau ieuenctid, a dealltwriaeth gan y grwpiau ieuenctid o gost y dewisiadau a wnânt.
- 8 Mae'r holl gynnig yn gorffwys ar gyfrifo cost yr uned safonol. Fe ellid ei graddio ar gyfer neuadd fach neu ystafell ddosbarth ar un lefel ac ar gyfer neuadd fawr neu neuadd chwaraeon ar lefel uwch. Fe ddylai'r nifer o lefelau fod yn gyfyngedig neu fe gollir symlrwydd y system.
- 9 Os bydd yr AALl yn dymuno cynyddu nifer gyffredinol y cyfryw ddefnyddiau, fe fydd y swm o arian newydd y bydd yn rhaid ei ychwanegu at y system yn hawdd i'w fesur.

10 Fe allai'r model hwn ganiatáu i grŵp gwirfoddol fynd i adeiladau masnachol a chael yr arian iawn (ac nid yr arian mewn enw) os yw'r AALl yn ffyddiog y gall gyflawni'i gytundeb o hyd. Hefyd fe allai ganiatáu i grŵp a gynhelir gael yr arian parod petai'n mynd i rywle arall. Ac yn olaf, gallai ganiatáu i ysgol uwchradd fawr rannu'i chynilion gyda grŵp ieuenctid drwy negydu gyda'r grŵp ynglŷn â defnyddio'i hadeiladau ar noson arbennig pan fo'r costau eisoes yn cael eu talu gan ddefnyddiwr arall.

Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant a Gweithwyr Gwirfoddol

1 Ar hyn o bryd y Swyddfa Gymreig sy'n penderfynu lefel y cymorth grant a roddir ganddi o'r Rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant er mwyn i bob AALl sicrhau lefel benodol o hyfforddiant.

2 Ynglŷn â gweithwyr ieuenctid, lefel bresennol y grant yw 60% o lefel y gwariant, neu'r 'dyraniad dangosol', a benderfynwyd gan y Swyddfa Gymreig. Nid oes gwaharddiad yn rhwystro'r AALl rhag gwario mwy na'r ffigur hwn ond nid yw'r gwariant ychwanegol yn denu grant ychwanegol.

3 Ar y rhai a gyflogir ganddi'n unig y caiff yr AALl wario unrhyw ran o'r dyraniad dangosol; ni chynhwysir gweithwyr ieuenctid gwirfoddol yn y trefniadau.

4 O dan y trefniadau ar hyn o bryd, petai'r Swyddfa Gymreig yn penderfynu mai £10,00 fyddai dyraniad dangosol AALl yn y maes hwn mewn unrhyw flwyddyn, fe fyddai'n cytuno i dalu £6,000 i'r AALl petai'r AALl yn gwario £4,000 o'i adnoddau'i hun. Fe arolygir y gwariant hwn, yn benodol drwy gyfrwng yr ateb ynglŷn ag arolygu ar ddiwedd y flwyddyn a gynnigir i'r Swyddfa Gymreig ym mis Gorffennaf.

5 Ein barn ni yw y byddai modd goresgyn y rhwystr technegol sy'n atal cynnwys gweithwyr ieuenctid gwirfoddol mewn hyfforddiant a gynhelir drwy'r Grantiau Hyfforddi yn y modd canlynol:

* petai'r Swyddfa Gymreig yn cytuno, yn achos AALl â dyraniad dangosol o £10,000, i leihau'r dyraniad dangosiadol o £10,000 i £8,000 ond i gynyddu canran y grant, dyweder, i 75%, sef y ganran uchaf a ganiatêir gan y rheoliadau, yna fe fyddai cyfraniad y Swyddfa Gymreig yn parhau'n £6,000 fel o'r blaen. Yna fe fyddai cyfraniad yr AALl at y dyraniad dangosol yn disgyn i £2,000. Fe wneid hyn yn unig, fodd bynnag, ar y ddealltwriaeth fod yr AALl yn barod i wario'r gweddill hyd at y £10,000 gwreiddiol, sef, £2,000, ar hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid gwirfoddol.

* Byddai angen i'r AALl gytuno â'r trefniant hwn ymlaen llaw a chynnwys ei wariant ei hun ar hyfforddi gweithwyr ieuenctid gwirfoddol gydag arian y tu allan i'r dyraniad dangosol yn ei ateb ar ddiwedd y flwyddyn ynglŷn ag arolygu'r Grantiau Hyfforddi.

6 Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar yr gwariant cyffredinol ar hyfforddi ac ni fyddai'n cryfhau na gwanhau'r achos o blaid maint y "dyraniad dangosol" cyffredinol yn y maes hwn. Byddai'n gymorth i AALl sy'n dymuno defnyddio rhan o'r dyraniad dangosol i hyfforddi gwirfoddolwyr fel cydnabyddiaeth o'r bartneriaeth rhwng yr AALl a'r sector gwirfoddol wrth gyflwyno'r gwasanaeth ieuenctid.